Arolygiad o dan Adran 28
Deddf Addysg 2005

Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn

Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Heol Colcot
Y Barri
Bro Morgannwg
CF62 8YU

Rhif yr Ysgol: 6734066

Dyddiad yr Arolygiad: 17 Tachwedd 2008

gan

William Gwyn Thomas
79567

Dyddiad Cyhoeddi: 22 Ionawr 2009

O dan rif contract Estyn: 1201408

℗ **Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2009: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Gyfun Bro Morgannwg fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Gyfun Bro Morgannwg rhwng 17/11/08 a 20/11/08, gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan William Gwyn Thomas. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

Gradd 1	da gyda nodweddion rhagorol
Gradd 2	nodweddion da a dim diffygion pwysig
Gradd 3	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
Gradd 4	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
Gradd 5	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol.

Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc.

Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd.

Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.

Cafodd yr ysgol hon arolygiad **byr**.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B 1	B 2	B 3	B 4	B 5	B 6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B 7	B 8	B 9	B 10	B 11	B 12	B 13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Cynnwys	**Tudalen**

Cyd-destun	1
Crynodeb	2
Argymhellion	5
Safonau	6
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant	10
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	10
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	14
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	17
Arweinyddiaeth a rheolaeth	21
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	21
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	23
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	25
Ymateb yr ysgol i'r arolygiad	28
Atodiadau	29
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	29
2 Data a dangosyddion ysgol	29
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	30
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	31
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	32

Cyd-destun

Natur y darparwr

1. Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ysgol ddynodedig Gymraeg ei chyfrwng i fechgyn a merched rhwng 11 a 18 mlwydd oed, a gaiff ei chynnal gan Awdurdod Unedol Bro Morgannwg (AU). Mae hefyd yn ysgol gymunedol gaiff ei defnyddio'n sylweddol gan wahanol sefydliadau. Ar hyn o bryd, mae 841 o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 150 yn y chweched dosbarth a staff o 58 cyfwerth ag amser llawn. Ar adeg yr arolygiad diwethaf yn Ionawr 2003, dim ond blynyddoedd (B) 7/8/9 oedd yn yr ysgol gyda 396 o ddisgyblion ar y gofrestr a staff o 24.
2. Gwasanaetha'r ysgol ardal ddaearyddol eang sydd yn cynnwys AU Bro Morgannwg gyfan. Mae 29% o'r AU wedi ei leoli yn 50% o'r rhanbarthau â'r amddifadedd cymdeithasol uchaf yng Nghymru. Mae'r ysgol yn derbyn 58% o'i disgyblion o dref Y Barri sydd â dwy ward a ddosbarthir fel rhai sydd yn y 10% o ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol uchaf yng Nghymru. Mae 8% o'r disgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim. Nid yw hyn yn adlewyrchiad cywir o wir natur y disgyblion sydd yn mynychu'r ysgol.
3. Mae disgyblion yn cynrychioli'r ystod lawn o allu. Mae gan 107 o ddisgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) gyda 99 pellach wedi eu dynodi fel rhai sydd angen peth cymorth. Mae dau ddisgybl wedi eu datgymhwyso o'r Cwricwlwm Cenedlaethol (CC). Nid oes unrhyw ddisgybl "sy'n derbyn gofal" yr awdurdod lleol (AALl).
4. Daw tua 91% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Saesneg yn brif gyfrwng y cyfathrebu, a 9% o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd. Siarada'r holl ddisgyblion y Gymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfwerth o fewn yr ysgol. Nid oes unrhyw ddisgybl yn derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol.
5. Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2000. Mae'r uwch dîm arwain (UDA) yn cynnwys y pennaeth, un dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.
6. Mae cyrsiau galwedigaethol yn CA4 a'r chweched dosbarth yn cael eu datblygu'n fewnol ac mewn partneriaeth â darparwyr eraill yn yr ardal. Mae'r ysgol hefyd yn cyflwyno Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) i fyfyrwyr y chweched dosbarth.

Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

7. Arwyddair yr ysgol yw: "Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd". Ei chenhadaeth yw darparu addysg eang, gytbwys a pherthnasol i'w holl disgyblion. Nod yr ysgol yw cynnig addysg Gymraeg gynhwysfawr i'w holl disgyblion a'u galluogi i gyflawni eu potential llawn mewn amgylchedd sydd yn cefnogi a pharchu pob unigolyn.
8. Caiff chwe nod ac amcan yr ysgol eu gosod yn eglur yn y prosbectws. Cânt eu cyflawni o fewn y fframwaith "Pobl Ifanc yng Nghymru: Gweithredu'r Hawliau - y Saith Nod Craidd".
9. Mae'r ysgol wedi paratoi cynllun datblygu tair blynedd. Mae cynllun datblygu manwl ar gyfer 2008-2009 yn dynodi meysydd ar gyfer datblygu sydd yn

cwmpasu safonau, addysgu ag asesu, dwyieithrwydd, y cwricwlwm, gofal a chyfarwyddyd bugeiliol, rheolaeth, trefniadau pontio a'r amgylchedd ddysgu, gan gynnwys rheoli adnoddau. Mae'r meysydd penodol ar gyfer gwelliant wedi eu dosbarthu i saith cwestiwn allweddol Estyn.

10. Mae'r ysgol hefyd yn gosod targedau rhifyddol ar gyfer llwyddiant ar ddiwedd Cyfnod Allweddol (CA) 3 a CA4 sef, yn 2009:

    - dylai 70% o'r disgyblion gyrraedd o leiaf lefel 5 yn asesiadau'r athrawon ym mhob un o'r pynciau craidd, ar ddiwedd CA3 (Saesneg 89%, Cymraeg 76%, mathemateg 78%, gwyddoniaeth 91%); ac
    - yn arholiadau'r Dystysgrif Gyffredinol Addysg Uwch (TGAU), dylai 72% o'r disgyblion ennill o leiaf pum TGAU ar raddau A*-C, a 95% ennill o leiaf pum TGAU ar raddau A*-G, a 56% ennill y dangosydd pynciau craidd (DPC).

Crynodeb

11. Mae Ysgol Gyfun Bro Morgannwg yn ysgol dda iawn gyda llawer o nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda iawn ar y cyfan i'r materion allweddol a nodwyd yn adroddiad arolygiad 2002. Mae'r tîm arolygu yn cytuno gyda phob un o'r arfarniadau a wnaed gan yr ysgol yn ei hadroddiad hunan arfarnu.

Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

Cwestiwn Allweddol		Gradd arolygu
1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	Gradd 2
2	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	Gradd 1
3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	Gradd 1
4	Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	Gradd 1
5	Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	Gradd 1
6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	Gradd 1
7	Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	Gradd 1

Safonau

12. Mae canlyniadau mewn profion, asesiadau statudol ac arholiadau yn dda. Mae safonau yn CA3 yn gwella trwy gydweithrediad agosach gyda'r ysgolion cynradd partner. Mae canlyniadau CA4 a'r chweched dosbarth yn dda ac yn cymharu'n weddol ffafriol gyda rhai mewn ysgolion tebyg.

13. Yn CA4, mae disgyblion sydd yn cyflawni o leiaf pum gradd A*-C ac A*-G mewn arholiadau TGAU yn cymharu'n dda iawn gyda disgyblion mewn ysgolion tebyg. Yn y chweched dosbarth, mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni gradd A-E mewn dau bwnc lefel Uwch neu fwy yn is na chyfartaleddau'r awdurdod lleol ond yn uwch na'r rhai cenedlaethol. Cyflawnodd yr ysgol ei set gyntaf o ganlyniadau lefel Uwch yn 2007. Dengys y canlyniadau ar gyfer 2008, sydd heb eu cadarnhau, gwelliant mewn amryw o'r dangosyddion.

SAFONAU YN Y MEDRAU ALLWEDDOL	GRADDAU CA3		GRADDAU CA4		GRADDAU'R CHWECHED DOSBARTH	
	CYMRAEG	SAESNEG	CYMRAEG	SAESNEG	CYMRAEG	SAESNEG
Siarad	2	2	2	2	1	1
Gwrando	1	1	1	1	1	1
Darllen	3	3	2	2	1	1
Ysgrifennu	3	3	2	2	1	1
Rhifedd	3	3	2	2	2	2
TGCh	1	1	1	1	1	1
Creadigol a Datrys Problemau	2	2	2	2	2	2
Gwella Dysgu eu Hunain	2	2	1	1	1	1
Gweithio Gydag Eraill	2	2	2	2	1	1

14. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn rhagorol ar draws yr ysgol.

15. Yn CA4 a'r chweched dosbarth mae safonau'n dda neu ragorol yn yr holl fedrau allweddol a'r medrau allweddol ehangach a bron pob un yn CA3. Mae nodweddion da yn gorbwyso diffygion mewn medrau cyfathrebu yn CA3 gan nad yw medrau llythrennedd disgyblion wedi eu datblygu'n llawn. Mae medrau dwyieithog disgyblion a myfyrwyr yn rhagorol. Maent yn trafod materion yn hyderus ymysg ei gilydd a gyda'u hathrawon. Maent yn trosglwyddo eu medrau ieithyddol o un iaith i'r llall yn ddiffwdan.

16. Gwna'r disgyblion sydd ag AAA a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu eraill gynnydd da iawn mewn perthynas â'u gallu.

17. Mae ymddygiad disgyblion yn eithriadol. Rhoddir blaenoriaeth uchel o fewn yr ysgol i barchu ei gilydd. Mae disgyblion yn gwrtais o fewn a thu allan i'r dosbarth. Mae'r ysgol yn gymuned waraidd iawn lle mae gan ddisgyblion a myfyrwyr ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith. Maent yn gwerthfawrogi gwaith eraill a gaiff ei arddangos yn y coridorau. Mae disgyblion a myfyrwyr yn ymdrechu i gyflawni o'u gorau glas ac yn falch i fod yn aelodau o'r ysgol. Mae lefelau presenoldeb yn gyson ond yn parhau i fod ychydig yn is na lefelau presenoldeb mewn ysgolion tebyg yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn brydlon i'w gwersi.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

18. Mae'r addysgu yn rhagorol. Mae ansawdd y perthnasau rhwng athrawon a'r disgyblion yn eithriadol. Mae disgyblion a myfyrwyr yn gwrando'n astud iawn ac mae gan aelodau'r staff ddisgwyliadau uchel.

19. Ceir cyflymder a her yn y gwersi a defnyddir ystod eang o adnoddau o ansawdd uchel yn dda. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda iawn a defnyddir y medrau allweddol yn barhaus ac effeithiol mewn gwersi.

20. Mae ansawdd yr addysgu yn yr holl wersi a arsylwyd gan yr arolygwyr yn arwyddocaol well na'r cyfartaledd cenedlaethol fel y'i hadroddir yn adroddiad blynyddol Estyn, yn enwedig ar gyfer graddau 1 a 2. Gweler y graddau yn y tabl isod:

	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Arsylwyd 58 gwers	50%	41%	9%	0%	0%
Cymru gyfan 2006/07	19%	57%	21%	3%	0%

21. Mae ansawdd y marcio'n dda iawn ar draws yr ysgol. Yn yr holl feysydd pwnc ceir arweiniad pwnc benodol manwl i ddisgyblion ar sut i wella. Mae gan yr ysgol system ragorol ar gyfer tracio cynnydd disgyblion a dynodi tangyflawniad. Mae bron pob adran yn gosod targedau sydd yn realistig. Mae disgyblion ynghlwm yn llwyr wrth y broses hunan asesu, yn enwedig yn CA4 a'r chweched dosbarth.

22. Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r gofynion cyfreithiol i ddisgyblion o oed ysgol statudol. Mae'n cynnig ystod eang o 36 o bynciau, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, i'w disgyblion yn CA4. Mae ystod eang o gyrsiau ar gael i fyfyrwyr y chweched dosbarth hefyd, gan gynnwys nifer trwy gydweithrediad. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch i bawb ac yn darparu cyfleoedd addas i ddisgyblion gyflawni achrediad. Dim ond rhai grwpiau o ddisgyblion sydd yn cyflawni achrediad yn y medrau allweddol. Mae datblygiad medrau menter yn CA4 a'r chweched dosbarth yn dda.
23. Ceir cysylltiadau cwricwlaidd rhagorol sydd yn helpu disgyblion wrth drosglwyddo o addysg gynradd i uwchradd.
24. Caiff datblygiad personol disgyblion ei gyfoethogi gan yr ystod ragorol o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol. Mae nifer o ddisgyblion hefyd yn elwa o'r ystod eang o weithgareddau diwylliannol sydd ar gael. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn helaeth.
25. Mae partneriaethau gyda sefydliadau eraill yn gryf iawn. Ceir cysylltiadau da gyda rhieni. Mae busnesau yn darparu cyfleoedd profiad gwaith ac mae siaradwyr allanol yn atgyfnerthu datblygiad ysbrydol myfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r gwasanaeth gyrfaoedd yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y broses opsiynau yn B9 a B11.
26. Mae'r ysgol yn cyfrannu'n llwyddiannus tuag at les ei disgyblion. Mae'r ffreutur yn darparu bwydlen ddyddiol o fwydydd iach gan gynnwys yn ystod egwyl y bore. Caiff gweithgareddau corfforol eu cefnogi'n dda ac mae dŵr ar gael yn hawdd. Mae'r ysgol bellach yn dechrau ymwneud â materion cynaliadwyedd.
27. Mae ansawdd y gofal a'r gefnogaeth i bob disgybl gan aelodau o'r staff a'r gwasanaethau cynnal yn rhagorol. Ceir cyswllt effeithiol gydag asiantaethau allanol.
28. Mae'r gefnogaeth fugeiliol gan benaethiaid blwyddyn a thiwtoriaid dosbarth yn rhagorol. Caiff hyn ei ategu yn y chweched dosbarth gan diwtoriaid personol ychwanegol. Mae'r UDA yn darparu'r rhain yn B12 i ddiwallu gofynion CBC. Mae disgyblion yn derbyn sylw unigol i fonitro eu cynnydd. Caiff ansawdd y gefnogaeth yma hefyd ei fonitro'n drylwyr.
29. Darperir cynhaliaeth o ansawdd uchel i ddisgyblion sydd ag AAA. Mae athrawon yn dynodi anghenion disgyblion yn ofalus ac yn gweithredu strategaethau cefnogi effeithiol i wella medrau llythrennedd disgyblion. Fodd bynnag, er bod nifer y staff cynnal yn annigonol, mae aelodau o'r staff yn sicrhau nad yw disgyblion o dan anfantais.
30. Yn gyffredinol, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cyfle cyfartal wedi ei ddatblygu'n dda iawn a chyson. Ni oddefir unrhyw wahaniaethu nag ymddygiad annymunol. Mae gweithdrefnau amddiffyn plant yn gadarn.
31. Mae'r cyngor ysgol yn gorff effeithiol ac yn cyfrannu'n arwyddocaol i fywyd o fewn yr ysgol.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

32. Mae'r pennaeth a'i UDA yn gweithio'n strategol fel tîm. Maent yn darparu arweinyddiaeth ragorol o fewn yr ysgol. Mae'r holl arweinwyr a staff yn cydweithio er lles y disgyblion.
33. Caiff polisïau a strategaethau ysgol-gyfan eu gweithredu'n effeithiol a chyson gan aelodau o'r staff.

34. Mae'r monitro gan yr UDA a'r rhai sydd â chyfrifoldebau rheolaethol yn drylwyr er mwyn sicrhau y caiff safonau eu codi ac arfer da ei ddynodi. Rhennir yr arfer da yma gyda phob aelod o'r staff. Mae'r monitro ffurfiol ac anffurfiol o adrannau yn drylwyr gyda llinellau clir o atebolrwydd.
35. Caiff gwaith a disgwyliadau rheolwyr uwch a chanol eu diffinio'n eglur. Mae ansawdd y cynllunio ar gyfer gwelliant yn rhagorol.
36. Mae'r corff llywodraethol yn ymgymryd â'i rôl fel ffrind beirniadol mewn dull effeithiol iawn. Mae monitro safonau a gweithdrefnau yn drylwyr. Mae llywodraethwyr yn arfarnu perfformiad rheolwyr uwch a chanol yn rheolaidd mewn modd beirniadol ond cefnogol. Maent hefyd yn archwilio rolau eu hunain a rhai'r corff llywodraethol i sicrhau effeithiolrwydd.
37. Mae gan yr ysgol nifer digonol o staff cymwys i ddiwallu'r anghenion cwricwlaidd a gweinyddol. Mae'r ffordd o reoli a lleoli staff addysgu a chynnal, gan gynnwys adnoddau ar gyfer ailfodelu'r gweithlu, wedi eu defnyddio mewn ffordd dda iawn. Mae athrawon sydd yn addysgu y tu allan i'w harbenigedd yn derbyn cefnogaeth dda iawn. Rhoddir blaenoriaeth uchel iawn i ddatblygu staff o fewn yr ysgol.
38. Yn gyffredinol, mae ansawdd yr adeiladau a'r ystafelloedd yn rhagorol. Fodd bynnag, nid oes llyfrgell ganolog/canolfan adnoddau i ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion a'r myfyrwyr ymhellach. Mae'r ddarpariaeth o adnoddau TGCh priodol a chyfoes wedi ei chynnal yn flynyddol. Mae cyllid digonol ar gael i'r adrannau i ddiwallu anghenion staff addysgu a disgyblion.
39. Oherwydd ansawdd rhagorol yr arweinyddiaeth, yr addysgu, y gefnogaeth i ddisgyblion, ehangder y cwricwlwm, gan gynnwys yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, ymddygiad canmoladwy'r disgyblion a'r myfyrwyr, mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian.
40. Mae'r cyfleoedd a'r addysg gynhwysfawr a ddarperir gan yr ysgol yn sicrhau bod ei darpariaeth yn diwallu anghenion yr ystod o'r disgyblion a'r myfyrwyr sydd ynddi.
41. Mae'r ddarpariaeth o addysg chweched dosbarth yn gost-effeithiol.

Argymhellion

Er mwyn cyflawni ei hamcanion, dylai'r ysgol ffocysu ar y blaenoriaethau a ganlyn:

*A1. Parhau i godi safonau llythrennedd yn CA3 trwy weithio'n effeithiol gyda'r ysgolion cynradd partner.

*A2. Gweithio tuag at achrediad ysgol-gyfan o'r medrau allweddol i godi safonau disgyblion ym mhob cyfnod allweddol.

A3. Dyrannu adnoddau ariannol i gynyddu'r nifer o gynorthwywyr cynnal dysgu i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol nifer gynyddol o ddisgyblion.

*A4. Gweithio gyda'r awdurdod lleol i ddarparu a sefydlu llyfrgell/canolfan adnoddau ysgol-gyfan.

** Mae'r cynllun datblygu ysgol yn mynd i'r afael â nifer o'r argymhellion yma*

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad hwn, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodeb ohono, yn cael ei ddosbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

Safonau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

42. Mae'r radd yma yn cyd-fynd â gradd hunan arfarnu'r ysgol.

CA3 a CA4

Llwyddiant disgyblion o ran cyflawni nodau dysgu cytûn

43. Sicrha'r ysgol fod disgyblion yn gwneud cynnydd yn y ddau gyfnod allweddol yma er gwaetha'r ffaith fod eu lefelau llythrennedd yn is na'r disgwyl wrth ddechrau yn B7. Cyflawnwyd gwaith pontio effeithiol iawn gyda'r ysgolion cynradd partner i wella'r sefyllfa yma. Mae buddiannau'r strategaethau cydweithredol i'w gweld yn amlwg yn lefelau llythrennedd carfan 2008 o ddisgyblion B7. Fodd bynnag, nid yw mantais lawn y gwaith yma i godi safonau eto wedi treiddio drwy'r cyfnod allweddol.

44. Ac eithrio Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth yn 2005/2006, mae'r canlyniadau cyffredinol mewn asesiadau athrawon yn CA3 yn y pynciau craidd a'r DPC ar ddiwedd CA3, wedi bod yn uwch na'r ffigurau cenedlaethol dros y tair blynedd diwethaf. Yn 2008, llwyddodd cyrhaeddiad disgyblion mewn Cymraeg iaith gyntaf a gwyddoniaeth i osod yr ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yng Nghymru.

45. Mae'r ysgol yn cymharu'n gymharol ffafriol ag ysgolion tebyg wrth gymharu gwerth ychwanegol o CA2-CA3. Yn 2007, amlygodd asesiadau athrawon yn CA3 (wedi eu cydweddu â chyflawniad blaenorol yn CA2) fod y gwerth ychwanegol ar gyfer gwyddoniaeth a'r DPC yn gosod yr ysgol yn y 25% uchaf a mathemateg yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yng Nghymru. Roedd yr ysgol yn yr 50% isaf ar gyfer Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg. Mae ffigurau gwerth ychwanegol 2007 yn amlygu gwelliant o gymharu â ffigurau 2006.

46. Perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn ym mhob un o'r pynciau craidd a'r DPC yn yr asesiadau ar ddiwedd CA3 yn 2007 a 2008. Yn 2008, roedd y bwlch rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched ym mhob un o'r pynciau craidd a'r DPC wedi lleihau.

47. Yn CA4, y nodweddion da yn arholiadau TGAU 2007 yw bod:
    - 72% o ddisgyblion wedi cyflawni o leiaf pum gradd A*-C mewn TGAU y cymwysterau galwedigaethol neu gyfuniad o'r ddau, sydd yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol;
    - 59% o ddisgyblion wedi cyflawni'r trothwy lefel 2 (o leiaf pum gradd A*-C mewn TGAU gan gynnwys mathemateg, Cymraeg iaith gyntaf neu Saesneg), sydd yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol; a
    - roedd cyfradd llwyddo gyffredinol disgyblion yn yr arholiadau TGAU yn arwyddocaol uwch na'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

48. O'i chymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru yn 2007, roedd canran y disgyblion yn y categori pum gradd A*-C yn yr 50% uchaf o ysgolion â hawl tebyg i brydau ysgol am ddim.

49. Mae llawer o'r disgyblion mwyaf galluog yn cyflawni eu potential llawn. Maent yn ennill y graddau A*/A yn yr arholiadau TGAU. Yn 2007, roedd 35.9% o'r graddau a gofnodwyd gan yr ysgol ar y lefel yma. Mae'r ganran yma gryn dipyn yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

50. Mae cynnydd disgyblion o CA3-CA4, wedi ei gyfateb â chyrhaeddiad blaenorol yn 2007, yn amlygu fod y gwerth ychwanegol ar gyfer disgyblion oedd yn cyflawni o leiaf pum gradd A*-G a'r cyfartaledd sgôr pwyntiau (CSP) mewn TGAU, yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg yng Nghymru.

51. Mae canran y disgyblion sydd yn cyflawni o leiaf pum gradd A*-C yn rhoi'r ysgol yn y 50% uchaf o ysgolion tebyg yng Nghymru. Mae ffigurau gwerth-atodol 2007 yn amlygu gwelliant o gymharu â ffigurau 2006.

52. Yn arholiadau TGAU CA4 yn 2007, roedd y bwlch rhwng perfformiad bechgyn a merched wedi ei lleihau mewn sawl dangosydd a diflannu mewn rhai ohonynt.

Eu cynnydd wrth ddysgu

53. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae safonau rhai o'r medrau allweddol yn dda gyda nodweddion rhagorol. Yn gyffredinol, mae safonau yn dda yn CA3 a CA4.

54. Yn CA3, mae gan yr holl fedrau allweddol safonau sydd ag o leiaf nodweddion da yn gorbwyso diffygion. Yn CA4, mae gan safonau nodweddion da a dim diffygion pwysig.

55. Mae gan ddisgyblion fedrau cyfathrebu cymwys yn CA3 a medrau da yn CA4. Yn gyffredinol, mae eu medrau gwrando yn rhagorol. Defnyddiant iaith estynedig yn hyderus. Nid yw medrau darllen ac ysgrifennu yn CA3 wedi eu datblygu cystal ag y maent yn CA4. Rhoddir cefnogaeth i'r rhai hynny sydd ag anawsterau darllen trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn CA3. Mae ansawdd a maint yr ysgrifennu estynedig yn unol â gallu'r disgyblion. Ar hyn o bryd, mae sillafu anghywir yn fwy amlwg yn CA3.

56. Mae safonau disgyblion ym medr allweddol TGCh yn dda gyda nodweddion rhagorol yn CA3 a CA4. Mae hyn oherwydd bod bron pob disgybl yn defnyddio'u medrau TGCh mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Mae hyn hefyd yn cynorthwyo disgyblion i gyflawni medrau creadigol a datrys problemau da.

57. Cydweithia'r disgyblion yn dda ac ymatebant yn dda i lawer o gyfleoedd i ddatrys tasgau.

58. Mae medrau disgyblion wrth gymhwyso rhif mewn ystod o bynciau ar draws y cwricwlwm yn ddigonol yn CA3, ond yn dda yn CA4.

59. Mae safonau medr allweddol gwella dysgu eu hunain yn dda yn CA3 ond yn rhagorol yn CA4.

60. Mae pob disgybl yn dilyn y cwrs Cymraeg iaith gyntaf llawn yn B10 a B11.

61. Mae medrau dwyieithog disgyblion yn rhagorol. Defnyddir yr iaith Gymraeg yn gyson ac mae'n amlwg iawn o fewn y prif adeiladau ac o amgylch yr ysgol. Defnyddia'r disgyblion y ddwy iaith, fel modd o gyfathrebu gyda chyd ddisgyblion yn yr ardaloedd chwarae, yn effeithiol iawn. Maent yn gallu trosglwyddo eu medrau o un iaith i'r llall yn hyderus a ddiffwdan.

62. Gwna'r disgyblion sydd ag AAA gynnydd da iawn mewn perthynas â'u gallu. Yn CA3 a CA4, mae llawer o ddisgyblion o allu is yn cyflawni eu potential.

63. Dynodir y disgyblion galluog a thalentog a gosodir tasgau sydd yn briodol o heriol iddynt i godi eu safonau academaidd. Gwnânt gynnydd da iawn a chyflawnant lefelau da o gyrhaeddiad yn yr arholiadau TGAU y maent yn eu sefyll yn gynnar.

64. Mae cynnydd disgyblion mewn gwersi yn dda.

65. Mae'r holl ddisgyblion yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn gwella. Mae gweithdrefnau hunanasesu ac asesu cymheiriaid wedi eu datblygu'n dda yn CA3 ac maent yn dda iawn yn CA4. Mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig sydd yn cynghori disgyblion sut mae angen iddynt wella yn dda iawn ym mhob adran. Mae'n bwnc-benodol a gyda ffocws pendant. Yn y llyfrau a archwiliwyd, roedd y cyngor ysgrifenedig a roddwyd yn gyson ac yn dda iawn.

66. Yn y mwyafrif o ddosbarthiadau a phynciau, gwna'r disgyblion gynnydd da tuag at eu targedau neu lefelau disgwyliadau. Mae llawer o ddisgyblion yn CA4 sydd ag anawsterau dysgu hefyd yn gwneud cynnydd da.

Datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu

67. Yn CA3 a CA4 mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol. O fewn cymuned yr ysgol, mae disgyblion yn ymddwyn mewn modd canmoladwy ac yn gwrtais i bawb. Maent hefyd yn barchus iawn. Mae gan yr ysgol ddisgwyliadau uchel o bob disgybl a diwellir y disgwyliadau yn llawn gan bawb.

68. Mae'r ysgol yn gymuned eithriadol o gynhwysol a hynod o drefnus a gofalgar, a dim ond 20 o ddisgyblion sydd wedi cael eu gwahardd dros dro. Yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, ni waharddwyd yr un disgybl yn barhaol.

69. Roedd y lefel presenoldeb ar gyfer 2007-2008 yn 92%. Mae hyn yn uwch na ffigur Cymru-gyfan o 90.9% ar gyfer 2008 ac ychydig yn is na'r graddfeydd presenoldeb mewn ysgolion tebyg yng Nghymru o ystyried eu hawl i brydau ysgol am ddim ar gyfer 2007-2008. Fodd bynnag, mae'n uwch na phresenoldeb yr awdurdod lleol ar gyfartaledd. Mae prydlondeb disgyblion i'w gwersi yn dda.

70. Gwna'r disgyblion gynnydd rhagorol yn eu datblygiad personol, cymdeithasol, moesol, ysbrydol ac ehangach. Mae'r cyfnodau addysg grefyddol a'r rhaglenni addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) yn cyfrannu'n sylweddol at y datblygiadau hyn. Mae disgyblion yn elwa'n fawr yn eu datblygiad ysbrydol a moesol oddi wrth y gwasanaethau o ansawdd uchel a'r sesiynau tiwtorial lle'r oedd y cyd-addoli yn codi ysbryd ac effeithiol. Mae gwerthoedd wrth galon yr ysgol ac yn amlwg ar waith. Ceir perthnasau da iawn o fewn yr ysgol.

71. Mae datblygiad cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn rhagorol. Mae disgyblion yn cymryd rhan yn yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol a ddarperir mewn chwaraeon, clybiau, ymweliadau, egwyliau preswyl ac ymweliadau i theatrau. Anogir y dimensiwn Cymraeg ar draws y cwricwlwm. Caiff y celfyddydau, creadigrwydd a chynllunio a cherddoriaeth i gyd eu hyrwyddo'n fawr ac mae disgyblion o wahanol alluoedd yn manteisio ar y cyfleoedd.

72. Dengys y disgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o faterion cyfle cyfartal. Mae ganddynt wybodaeth gadarn o flaenoriaethau cenedlaethol megis yr agenda sgiliau. Maent hefyd yn ymwneud â gweithgareddau sydd yn gysylltiedig â gwaith a drefnir gan Gyrfa Cymru.

Chweched dosbarth

Llwyddiant myfyrwyr o ran cyflawni nodau dysgu cytunedig

73. Yn gyffredinol, mae safonau cyrhaeddiad ar lefel Uwch yn 2007 yn dda. Hon oedd y flwyddyn gyntaf i'r ysgol, sydd â pholisi mynediad agored i'r chweched dosbarth, gofrestru myfyrwyr ar gyfer yr arholiadau yma. Mae canlyniadau'n dda oherwydd bod:
    - 65% o fyfyrwyr wedi cyflawni graddau A-C mewn dau arholiad neu fwy ar lefel Uwch; a
    - 96% o fyfyrwyr wedi cyflawni graddau A-E mewn dau arholiad neu fwy ar lefel Uwch (trothwy lefel 3) sydd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 94%.
74. Yn 2007, mewn ond un pwnc a astudiwyd ar lefel Uwch a ddynododd bod ymgeiswyr ar gyfartaledd wedi perfformio'n waeth nag y byddai eu graddau TGAU yn rhagfynegi o fwy nag un radd lawn.
75. Yn 2007, perfformiodd bechgyn yn well na merched ar raddau A-C yn yr arholiadau lefel Uwch, ond roedd y gwrthwyneb yn wir ar raddau A-E. Yn 2007, roedd gwahaniaeth o 28 pwynt o blaid y merched rhwng sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog (SBCE) y bechgyn a'r merched.
76. Ym Medi 2007, dychwelodd 58% o ddisgyblion B11 i'r chweched dosbarth ac aeth 29% ymlaen i golegau addysg bellach. Mae'r ffigurau yma yn adlewyrchu athroniaeth yr ysgol mewn perthynas â Llwybrau Dysgu 14-19 Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC). Mae'n cynghori disgyblion B11 i ddilyn cyrsiau sydd yn diwallu eu hanghenion mewn sefydliadau priodol.

Eu cynnydd wrth ddysgu

77. Mae myfyrwyr yn cyflawni safonau yn eu medrau allweddol sydd o leiaf â nodweddion da a dim diffygion pwysig.
78. Mewn trafodaethau â'i gilydd a'u hathrawon, defnyddia bron bob myfyriwr derminoleg pwnc benodol i safon uchel iawn. Mae gwaith grŵp yn effeithiol iawn ym mhob maes pwnc ac mae hyn yn gryfder yn y chweched dosbarth. Gwrendy'r myfyrwyr yn astud ar eu hathrawon ac ar ei gilydd, gan werthfawrogi safbwyntiau eraill. Mae'r rhinweddau yma yn cynorthwyo'r myfyrwyr i gynnal a datblygu eu medrau datrys problemau da.
79. Mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr yn gallu cymhwyso eu medrau rhifedd i safon effeithiol ond nid i'r un safon â'r rhan fwyaf o'u medrau allweddol eraill. Ar bob achlysur, defnyddiant eu medrau TGCh rhagorol i'r fantais orau er mwyn codi safon eu gwaith.
80. Mae lefelau rhagorol o gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn amlwg mewn trafodaethau dosbarth.
81. Mae medrau dwyieithog disgyblion o fewn ac o amgylch yr ysgol yn nodweddion cryf iawn wrth i fyfyrwyr gyfathrebu'n gyson a hyderus yn y ddwy iaith.
82. Mae ymagwedd fwy aeddfed tuag at waith yn paratoi pob myfyriwr yn dda ar gyfer symud ymlaen i brifysgol neu fyd gwaith. Gweithiant yn gyson a defnyddiant eu hamser digyswllt yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cyflawni eu targedau heriol. Mae myfyrwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac mae hyn yn gyson o fewn y chweched dosbarth. Maent yn cymryd mantais lawn o'r cyfleusterau sydd ar gael iddynt.

83. Yn ystod eu cyfnod o astudio yn y chweched dosbarth, cyflawna llawer o fyfyrwyr achrediad yn eu medrau allweddol un ai ar lefelau 2 neu 3.

84. Mae gan yr holl fyfyrwyr ddealltwriaeth eglur o'u lefelau cyflawniad a beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella ym mhob pwnc. Caiff eu gwaith ei farcio a rhoddir targedau ar gyfer gwelliant yn gyson.

Datblygiad eu medrau personol, cymdeithasol a dysgu

85. Mae'r myfyrwyr wedi datblygu medrau personol, cymdeithasol a dysgu rhagorol. Gwnânt gynnydd da iawn yn eu datblygiad fel oedolion ifanc. Mae eu hymagwedd tuag at ddysgu yn rhagorol gan eu bod yn benderfynol o wneud y gorau o'r holl gyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae eu lefelau canolbwyntio yn uchel ac, fel myfyrwyr, maent yn ymrwymo'n llwyr i'r dasg sydd ar waith.

86. Derbyniant gyfrifoldeb yn hawdd ac mae ganddynt gydwybod cymdeithasol cryf. Cymerant rôl flaenllaw mewn amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol ac mewn gweithgareddau gyda disgyblion iau. Maent yn aeddfedu yn ystod eu cyfnod o astudiaeth yn y chweched dosbarth ac yn derbyn profiad gwerthfawr.

87. Maent yn caffael mwy o ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol trwy gyswllt gydag amrediad eang o siaradwyr allanol. Mae'r amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer datblygiad ysbrydol yn sicrhau bod safonau yn dda iawn. Mae safon gwasanaethau yn y chweched dosbarth yn rhagorol.

88. Dengys y myfyrwyr ymddygiad cyfrifol iawn a pharch tuag at ei gilydd a holl aelodau o gymuned yr ysgol.

89. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o amrediad o faterion cyfoes ac yn ymateb yn dda yn bersonol i godi arian ar gyfer amrywiaeth o achosion.

90. Mae myfyrwyr yn ymgymryd â chyfleoedd profiad gwaith yn y chweched dosbarth. Mae cyfarwyddyd gyrfaol yn effeithiol iawn a chaiff ei werthfawrogi. Caiff myfyrwyr eu paratoi'n effeithiol i'w galluogi i ddechrau ar y cyfnod nesaf o'u datblygiad yn llwyddiannus.

91. Ceir llawer o gyfleoedd i fynychu diwrnodau agored mewn prifysgolion ac i gael eu tiwtora ar dechneg cyfweliad. Mae llawer o fyfyrwyr wedi llwyddo i sicrhau mynediad i Addysg Uwch. Maent oll wedi mabwysiadu a datblygu medrau sydd wedi eu paratoi'n dda ar gyfer Addysg Uwch.

92. Mae myfyrwyr yn elwa'n sylweddol o'u profiadau yn y chweched dosbarth, yn eu datblygiad academaidd, personol, cymdeithasol, moesol ac ehangach.

Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

93. Mae'r radd hon yn cyd-fynd â gradd hunan arfarniad yr ysgol. Mae nodweddion rhagorol yr addysgu yn cynnwys:
    - ystod eang o arddulliau addysgu ac adnoddau addysgol sy'n sicrhau cyfranogiad gweithredol y disgyblion;
    - disgwyliadau uchel sy'n cymell a herio disgyblion;

- gwybodaeth bynciol gadarn;
- cyflymder ac amseru priodol i'r gweithgareddau;
- cyfleoedd eang i ddatblygu medrau meddwl a dysgu'r disgyblion; a
- defnydd effeithiol o gwestiynu treiddgar i annog disgyblion i ymateb yn estynedig.

Pa mor dda mae'r addysgu a'r hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs

94. Mae'r tabl isod yn dangos y graddau a ddyfarnwyd i ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd trwy'r ysgol.

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Arsylwyd 58 o wersi	50%	41%	9%	0%	0%

95. Mae canran y gwersi y dyfarnwyd yn radd 1 neu 2, sef 91% yn arwyddocaol uwch na'r darlun cenedlaethol yn 2006-2007 lle arfarnwyd 76% o wersi yn radd 1 a 2. Mewn 9% o wersi, mae nodweddion da'n gorbwyso diffygion. Mae'r ysgol yn rhagori ar darged uwchradd 2010, 'Gweledigaeth ar Waith', sef y dylai ansawdd yr addysgu fod yn radd 2 neu well mewn 80% o ddosbarthiadau

CA3 a CA4

96. Dengys y tabl isod ansawdd yr addysgu a'r asesu ymhob gwers a arsylwyd yn yr ysgol yn CA3 a CA4:

Ansawdd yr addysgu Arsylwyd 47 o wersi	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
CA3	56%	36%	8%	0%	0%
CA4	41%	50%	9%	0%	0%
CA3 a CA4	49%	43%	8%	0%	0%

97. Gwelwyd nodweddion rhagorol a da yn ansawdd yr addysgu mewn amrediad eang iawn o bynciau yn y ddau gyfnod allweddol.

98. Elfen o ragoriaeth yn yr ysgol yw'r gweithgor dysgu ac addysgu sy'n ymdrin yn flaengar â methodoleg dysgu ac addysgu, yn trafod ac yn monitro agweddau penodol o'r addysgu'n draws ysgol. Caiff adborth ei goladu ar ffurf adroddiadau yn nodi canfyddiadau ac argymhellion. Rhan greiddiol o ethos yr ysgol ac un o'i chryfderau yw'r awyrgylch agored o rannu syniadau ac arferion da. Mae gan bob aelod o'r UDA gyfrifoldeb am agweddau o ddysgu ac addysgu sy'n sicrhau bod addysgu'n rhan allweddol o waith beunyddiol yr ysgol.

99. Nodwedd ragorol o'r addysgu yw'r berthynas waith dda iawn rhwng yr athrawon a'r disgyblion. Mae'r berthynas hon, ynghyd â'r parch a'r cyfleoedd cyfartal gaiff pob disgybl, yn meithrin agweddau iach tuag at ddysgu. Mae'n hyrwyddo cymhelliant y disgyblion i lwyddo ac yn hybu safonau uchel o ymddygiad mewn gwersi.

100. Mae blaengaredd y cynllunio gyda chamau strwythuredig bwriadus yn hybu awyrgylch o drefn ac yn annog ethos dysgu effeithlon. Caiff amcanion gwersi eu rhannu, eu defnyddio'n ystyrlon a'u hadolygu ar y diwedd. Caiff y datblygiad o nifer o fedrau allweddol eu cynllunio'n drylwyr. Defnyddir casgliadau holiaduron ar arddulliau dysgu sy'n rhan o'r rhaglen bontio rhwng CA2 a CA3 fel arf ychwanegol er mwyn addasu gwersi i gyd-fynd ag anghenion y disgyblion. Mae hyn yn arfer da.

101. Mae'r ysgol yn cwrdd ag anghenion ieithyddol y disgyblion yn rhagorol trwy roi ffocws ar ddefnyddio termau pwnc penodol yn y ddwy iaith ar draws y cwricwlwm. Mae'n meithrin y grefft o drawsieithu a chyfieithu, y defnydd o fatiau

iaith a fframiau ysgrifennu ynghyd â darparu gweithgareddau amrywiol mewn sefyllfaoedd pob dydd.

102. Ar draws yr holl wersi, mae llawer o nodweddion da i'r addysgu yn cynnwys:
    - trefniadaeth dosbarth amrywiol;
    - defnydd effeithiol o'r bwrdd gwyn rhyngweithiol;
    - amrywiaeth o dasgau dysgu diddorol;
    - defnydd o fyrddau gwyn bach sy'n sicrhau ymrwymiad gweithredol y disgyblion; ac
    - anogaeth a chanmoliaeth addas a chyson i unigolion.
103. Mae gwefan yr ysgol yn nodwedd ragorol. Mae'n darparu adnoddau priodol sy'n atgyfnerthu'r dysgu. Mae hefyd yn cynnwys unedau o waith a thasgau gwaith cartref. Mae nifer helaeth o athrawon yn rhoi'n hael iawn o'u hamser i gynnig cynhaliaeth ychwanegol i ddisgyblion mewn clybiau a sesiynau gwaith.
104. Mae disgyblion ag ADY yn cael eu haddysgu'n dda a'u hintegreiddio'n llawn i weithgareddau dosbarth. Darperir cyfleoedd penodol i ddiwallu anghenion disgyblion galluog a dawnus.
105. Mewn ychydig iawn o wersi mae rhai diffygion megis, diffyg gwaith priodol i ddiwallu anghenion disgyblion, cam amseru'r wers a diffyg crynhoi addas.

Pa mor drylwyr yw asesu a sut y'i defnyddir i gynllunio a gwella dysgu

106. Mae ansawdd asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau yn dda gyda nodweddion rhagorol.
107. Mae gan yr ysgol bolisi asesu ar gyfer dysgu hynod gynhwysfawr sy'n cynnig arweiniad rhagorol i weithredu a datblygu'r gyfundrefn hon. Mae adrannau wedi mabwysiadu'r egwyddorion a'r arferion da a nodir yn y polisi hwn gan ddefnyddio asesu fel arf diagnostig yn y dosbarth i wella perfformiad a hyrwyddo safonau.
108. Nodwedd ragorol yw dealltwriaeth y disgyblion o broses a phwrpas asesu a'u rhan weithredol yn y prosesau hyn. Mewn mwyafrif helaeth o'r pynciau mae'r arfer o asesu ar gyfer dysgu wedi gwreiddio a datblygu oherwydd bod adrannau yn:
    - rhannu meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion er mwyn datblygu sgiliau penodol;
    - cynorthwyo'r disgyblion i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'u safon a'r dulliau o wella;
    - addasu disgrifiadau lefelau cyrhaeddiad y CC er mwyn i ddisgyblion eu deall yng nghyd-destun y gwaith;
    - defnyddio arferion asesu ar gyfer dysgu yn gyson fel rhan ganolog o'r dysgu, a
    - gwneud defnydd priodol o wybodaeth asesu i adnabod tueddiadau er mwyn bwydo'n ôl yn effeithiol i'r addysgu, y marcio a'r asesu.
109. Yn y mwyafrif o'r adrannau mae ansawdd yr adborth ysgrifenedig yn hynod effeithiol gyda'r marcio yn ddiagnostig a sylwadau a thargedau clir sy'n arwain yr unigolyn i wella ar ei wybodaeth, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth. Caiff gwaith y disgyblion ei gywiro'n ieithyddol yn unol â'r côd marcio.
110. Mae nodweddion rhagorol y gyfundrefn asesu hefyd yn cynnwys:
    - defnydd effeithiol iawn o system gyfrifiadurol ar lefel ysgol ac adrannol i hwyluso coladu a dadansoddi ystod eang o ddata;

- pennu targedau heriol, monitro ac adrodd ar gynnydd; a
- cyfundrefn fonitro systematig a thrylwyr gan yr UDA yn gwarantu ansawdd y ddarpariaeth gan sicrhau cysondeb gweithdrefnau adrannol yn unol â pholisi'r ysgol.

111. Mae'r nodweddion da yn cynnwys gosod tasgau asesu pynciol yn dymhorol sydd wedi'u hymgorffori i gynlluniau gwaith adrannol a thracio cynnydd deirgwaith y flwyddyn ar system fewnrwyd yr ysgol.

112. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro cynnydd disgyblion sy'n sylwi ar batrymau llwyddiant a thangyflawni yn un o gryfderau'r ysgol. Ceir cyswllt agos rhwng yr athrawon pwnc, arweinwyr tîm, penaethiaid blwyddyn, tiwtoriaid dosbarth a'r UDA yn y broses o fonitro. Caiff disgyblion eu mentora, eu cyfweld a cheir cydweithio effeithiol gyda rhieni. Darperir cymorth ychwanegol i garfanau targed yn B9 a B11 sy'n cael effaith gadarnhaol ar godi safonau.

113. Mae gweithdrefnau'r adrannau ar gyfer safoni ansawdd gwaith disgyblion yn CA3 yn datblygu'n gadarn, yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o ran safonau gan sicrhau cysondeb a chywirdeb o ran yr asesu. Mae'r gweithdrefnau pontio rhwng CA2 a CA3 yn flaengar ac effeithiol. Trefnir cyfarfodydd cymedroli pynciau craidd er mwyn gwarantu cysondeb o ran lefelu gwaith yn CA2 a CA3. Cedwir portffolios yn enghreifftio'r gwaith cymedroli. Mae'r arfer dda yma yn greiddiol o ran prosesau pontio'r ysgol.

114. Diwellir yr holl ofynion o ran asesu ac adrodd ar bynciau'r CC ac mae'r trefniadau yn cyflawni rheolau'r byrddau arholi. Cydymffurfia'r ysgol â gofynion asesu'r disgyblion a'r myfyrwyr sydd ag ADY.

115. Mae'r adroddiadau blynyddol ac interim i rieni yn darparu gwybodaeth ragorol ar gyrhaeddiad a rhinweddau personol eu plentyn. Ceir darlun clir o gynnydd disgybl ym mhob pwnc yn seiliedig ar raddau presennol a graddau targed. Mae ansawdd mwyafrif helaeth y sylwadau yn bwnc benodol, yn arfarnol ac yn rhoi targedau clir i'r disgyblion.

116. Gall rhieni gyfrannu i'r adroddiadau drwy ymateb ysgrifenedig a mynychu'r nosweithiau rhieni blynyddol.

117. Mae'r broses hunanwerthuso yn arfer dda iawn pan gaiff disgyblion roi sylwadau ar eu cynnydd, eu cyfraniad i fywyd yr ysgol a'u rhinweddau personol. Ar ddechrau blwyddyn academaidd cânt gyfleoedd pellach i drafod eu targedau pynciol a chofnodi dulliau o'u cyflawni gyda'u tiwtor personol. Mae'r targedau yn sail i'w cyfweliadau blynyddol. Mae hyn yn arfer dda ac yn cwblhau'r cylch.

Chweched dosbarth

Pa mor dda mae'r addysgu a'r hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs

118. Mae ansawdd yr addysgu yn dda gyda nodweddion rhagorol.

119. Mae'r tabl canlynol yn dangos y graddau a ddyfarnwyd i ansawdd yr addysgu yn y gwersi a arsylwyd yn y chweched dosbarth.

Ansawdd yr addysgu	Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
Chweched dosbarth Arsylwyd 11 gwers	55%	36%	9%	0%	0%

120. Mae i ansawdd yr addysgu yn y chweched dosbarth gryfderau amlwg. Mae llawer o'r nodweddion rhagorol yn debyg i'r rhai hynny a welwyd mewn gwersi yn CA3 a CA4. Nodweddion ychwanegol yr addysgu rhagorol yw pwyslais ar weithgareddau sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu cysyniadau newydd a hyrwyddo eu medrau allweddol. Defnyddir cwestiynu agored fel arf i fesur dealltwriaeth a dyfnder gwybodaeth y myfyrwyr. Darperir cyfleoedd priodol i ddatblygu dwyieithrwydd gan baratoi'r myfyrwyr ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch a byd gwaith dwyieithog. Yn y gwersi hyn caiff myfyrwyr unigol gymorth ac anogaeth gref i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

121. Mae nodweddion da'r addysgu yn y chweched dosbarth yn cynnwys gwersi sy'n cael eu cyflwyno ar gyflymder. Mae hyn yn ysbrydoli myfyrwyr i ddysgu a'u paratoi ar gyfer anghenion arholiadau allanol.

Pa mor drylwyr yw asesu a sut y'i defnyddir i gynllunio a gwella dysgu

122. Nodwedd ragorol yw'r defnydd cyson o asesu ar gyfer dysgu i hyrwyddo safonau uwch lle mae myfyrwyr yn llwyr ymwybodol o feini prawf llwyddiant gydag ansawdd yr adborth ysgrifenedig a roddir wrth farcio yn adeiladol a dadansoddol. Cânt gyfleoedd cyson i osod targedau pynciol ar gyfer gwelliant.

123. Mae rhai diffygion mewn ychydig iawn o wersi yn cynnwys cyflwyniadau rhy hir gan yr athrawon.

124. Ceir systemau hynod effeithiol i fonitro cynnydd myfyrwyr y chweched dosbarth. Gwneir defnydd o ddata i ragfynegi graddau targed a cheir trosolwg tymhorol gan y pennaeth blwyddyn. Mae cyfnodau tiwtorial CBC yn B12 a gynhelir gan y tiwtor personol a'r UDA, ynghyd â chyfnodau mentora strwythuredig B13, yn fodd i fonitro cynnydd a phennu targedau gwelliant. Mae'r prosesau hyn yn sicrhau fod y myfyrwyr yn llwyr ymwybodol o amcangyfrifon eu graddau a cheir cyd-ddealltwriaeth glir rhwng yr athrawon pynciol, tiwtoriaid personol, pennaeth y chweched a'r UDA o gynnydd y myfyrwyr yn unol â'u targedau.

125. Mae ansawdd y cyswllt â rhieni a'r wybodaeth a gânt am gynnydd y myfyrwyr yn rhagorol. Yn B12 a B13 anfonir adroddiadau blynyddol ac interim iddynt ac mae'r sylwadau pynciol yn fanwl ac yn darparu targedau ar gyfer gwelliant.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

126. Mae'r radd yma yn cyd-fynd â gradd hunan arfarnu'r ysgol. Y nodweddion rhagorol yw'r:

- amrediad eang o opsiynau yn CA4 a'r chweched dosbarth;
- dilyniant a gynigir yn y cyrsiau academaidd a galwedigaethol yn CA4 ac yn y chweched dosbarth;
- darparu pob cwrs galwedigaethol trwy gyfrwng y Gymraeg yn CA4 a CA5;
- ystod eang ac amrywiol o weithgareddau allgyrsiol;
- partneriaethau a ffurfiwyd rhwng yr ysgol, ei rhieni a'r gymuned;
- cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol gyda'r ysgolion cynradd partner; a'r

- darpariaeth ac ansawdd yr addysg gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr

127. Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd oedolyn. Mae cwricwlwm yr ysgol yn cydymffurfio â Deddfau Addysg 1996 a 2005, ac â'r gofynion statudol parthed disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

128. Mae'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn sicrhau achrediad.

129. Yn CA3, addysgir holl bynciau'r CC i ddisgyblion yn ogystal â gwersi ar wahân ar gyfer drama a TGCh. Dynodir un diwrnod y mis i ddisgyblion B7 i ddatblygu'r agenda sgiliau.

130. Mae ymateb yr ysgol i agenda Llwybrau Dysgu LlCC yn rhagorol. Cynigir ystod eang o gyrsiau yn CA4 a'r chweched dosbarth. Sicrheir llwybrau dysgu priodol yn CA4. Yn ychwanegol i'r cwricwlwm craidd, caiff disgyblion amrediad eang o opsiynau pwnc sydd yn cynnwys cyrsiau galwedigaethol. Ceir cyfanswm o 36 o gyrsiau.

131. Fel rhan o'r ddarpariaeth partneriaeth 14-19, mae partneriaeth lwyddiannus a chryf yn bodoli rhwng yr ysgol, Coleg Y Barri a Choleg Paratoi Milwrol Caerdydd. Cyflwynir seicoleg trwy ddefnyddio cyfleusterau fideo gynadledda i gysylltu â Choleg Meirion Dwyfor. Mae grŵp bychan o ddisgyblion yn B10 a B11 yn dilyn Gwobr Efydd Dug Caeredin a chofrestrir myfyrwyr y chweched dosbarth ar gyfer y wobr aur. Mae'r ysgol wedi gweithio'n agos gyda cholegau i sicrhau caiff yr holl gyrsiau galwedigaethol CA4 a'r chweched dosbarth eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

132. Darpara'r ysgol amrywiaeth rhagorol o brofiadau cyfoethog i'w dysgwyr, gan gynnwys:
    - ystod o weithgareddau chwaraeon a gweithgareddau hamdden fel rhan o raglen 5x60 Cyngor Chwaraeon Cymru; derbyniodd yr ysgol wobr gymunedol Cymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru am hyn;
    - cyfleoedd i hyfforddi fel arweinwyr chwaraeon cymunedol ac fel hyfforddwyr a dyfarnwyr o fewn campau unigol;
    - ystod o weithgareddau cerddorol;
    - amrywiol ymweliadau dramor i lefydd o ddiddordeb hanesyddol, diwylliannol a gwyddonol;
    - ymweliadau niferus i lefydd o ddiddordeb lleol yng Nghaerdydd; a
    - ymgymryd ag amrywiol weithgareddau'r Urdd a'r Rotari.

133. Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r rhieni a'r gymuned yn nodwedd ragorol. Cynhyrchir cylchlythyron diddorol llawn gwybodaeth yn rheolaidd. Mae pamffledi ar gyfer llawer o agweddau o fywyd ysgol o safon uchel iawn.

134. Fel rhan o'u polisi drws agored effeithiol, mae'r ysgol yn annog rhieni i gyfathrebu â'r ysgol drwy e-byst. Mae gwefan yr ysgol yn annog rhieni i dracio cynnydd a phresenoldeb eu plentyn.

135. Mae'r cysylltiadau cymunedol yn rhagorol. Mae disgyblion yn elwa o fewnbwn asiantaethau, er enghraifft yr heddlu, busnesau lleol ac asiantaethau iechyd, i'w rhaglenni ABCh. Ceir cysylltiadau agos gyda'r Clwb Rotari. Mae'r Rheolwr Dysgu

Cymunedol i'r ysgolion sydd yn ffocysu ar y gymuned wedi ei leoli yn yr ysgol. Mae'r rheolwr yn gweithio fel cyswllt rhwng yr ysgolion cynradd partner, y cymunedau mae'r ysgol yn eu gwasanaethu, a disgyblion yr ysgol er mwyn atgyfnerthu a datblygu medrau iaith Gymraeg disgyblion mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Dyfarnwyd gwobr 'Buddsoddwyr mewn Teuluoedd' i'r ysgol o ganlyniad uniongyrchol i ddatblygu a darparu medrau iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth ffurfiol.

136. Mae cysylltiadau cwricwlaidd a bugeiliol rhagorol yn bodoli gyda'r ysgolion cynradd partner. Cytunwyd ar gynllun pontio, sydd yn amlinellu cynllunio cwricwlaidd ar y cyd, gyda'r ysgolion partner. Mae pob adran o fewn yr ysgol wedi, ac yn cydweithio'n agos gyda'r ysgolion cynradd partner i ddatblygu rhaglen astudio sydd yn gyffredin i bawb ymhellach. Mae hyn yn sicrhau dilyniant a pharhad rhwng B6 a B7. Mae trefniadau trosglwyddo i dderbyn disgyblion o ysgolion eraill yn dda iawn. Yn ogystal â chyfnodau preswyl, mae disgyblion B6 yn ymweld am un diwrnod bob tymor cyn trosglwyddo. Mae disgyblion B7 yn derbyn tri diwrnod o anwytho ac wythnos yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog ar ôl hanner tymor yr hydref. Mae disgyblion B7 yn gwerthuso'r trefniadau pontio. Ceir systemau cefnogi a ddatblygwyd yn dda iawn o fewn yr ysgol sydd yn sicrhau dilyniant o ran datblygiad cwricwlaidd a bugeiliol.

137. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY ac ar gyfer disgyblion galluog a thalentog yn dda iawn. Yn ychwanegol i'w opsiynau dewisedig, mae disgyblion talentog a dawnus yn sefyll arholiadau TGAU mewn cerddoriaeth yn B9 a B10, ac Almaeneg a chelf yn B10 a B11. Mae disgyblion galluog yn B12 yn gallu cymryd chwe phwnc ar lefel Uwch Gyfrannol (UG), ac mae ieithyddion galluog yn gallu dewis astudio Sbaeneg i lefel TGAU mewn blwyddyn. Mae holl fyfyrwyr B12 yn astudio Sbaeneg fel rhan o'r CBC neu'n astudio iaith tramor modern arall.

138. Mae'r ysgol yn datblygu, gweithredu a chydlynu medrau allweddol yn dda. Mae eu cyflwyniad yn rhan gynlluniedig ac annatod o wersi ar draws y cyfnodau allweddol. Caiff eu datblygiad ei dracio a'i fonitro'n effeithiol. Fodd bynnag, ni chaiff lawer o ddisgyblion y cyfle i achredu eu medrau allweddol.

139. Mae datblygiad personol disgyblion yn dda iawn. Ceir rhaglen ABCh gynhwysfawr ym mhob cyfnod allweddol. Mae gwasanaethau ysgol a chyfnodau tiwtor yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol i safon uchel. Gosodir disgwyliadau uchel gan athrawon a chaiff parch rhwng athrawon a disgyblion ei feithrin drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn annog disgyblion i ystyried eu cyfrifoldeb cymdeithasol tuag at eraill trwy gefnogi amrywiol elusennau. Mae'n datblygu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o'u diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill yn arbennig o dda.

140. Mae'r ysgol yn diwallu ei gofyniad statudol o ran cyd addoli dyddiol.

141. Ceir cysylltiadau da rhwng yr ysgol a Phrifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Athrofa Cymru Caerdydd (UWIC). Mae'n derbyn myfyrwyr yn rheolaidd ac yn cynnig cefnogaeth dda iawn i'r rhai dan hyfforddiant.

142. Dyfarnwyd Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i'r ysgol ac mae gwersi llythrennedd a rhifedd ychwanegol yn CA3 wedi helpu disgyblion i gael mynediad i'r cwricwlwm.

Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

143. Mae addysg gyrfaoedd ac addysg sy'n gysylltiedig â gwaith yn nodwedd amlwg yng nghwricwlwm yr ysgol ar draws y cyfnodau allweddol. Mae'r rhain yn nodweddion rhagorol. Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru am addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith, a Gwobr Datblygu Cwricwlwm y Bartneriaeth Addysg a Busnes. Mae rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ar draws y cyfnodau allweddol yn cwmpasu prif agweddau byd gwaith. Ffurfiwyd cysylltiadau agos a chadarnhaol gyda Gyrfa Cymru a chyflwynir rhaglen addysg yn gysylltiedig â gwaith drefnus trwy'r rhaglen ABCh. Mae myfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau galwedigaethol yn elwa o brofiad gwaith wedi 'i strwythuro'n dda.

144. Mae hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn rhan annatod o ethos yr ysgol. Mae meysydd pwnc yn cymryd pob cyfle i weithredu agweddau perthnasol.

145. Mae ethos Cymreig rhagorol yr ysgol hefyd yn llwyddo i ddatblygu'r ddarpariaeth ddwyieithog. Rhoddir termau yn ddwyieithog a darperir yr holl ddogfennaeth yn y ddwy iaith i rieni. Mae'r ysgol yn ymateb yn dda iawn i'r blaenoriaethau a gynhwysir yn 'laith Pawb' LICC.

146. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag anfantais gymdeithasol ac ystrydebu yn llwyddiannus. Cyflawnir hyn trwy gyflwyno unedau mewn ABCh, addysg gyrfaoedd, cyfnodau cofrestru, darpariaeth fugeiliol a chynllunio cwricwlaidd. Mae pob disgybl yn cyflawni achrediad yn CA4.

147. Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn datblygu.

148. Cyflwynir profiadau menter trwy'r rhaglen ABCh ym mhob cyfnod allweddol. Yn B10 a B12, derbynia disgyblion a myfyrwyr gyfleoedd i redeg mentrau bychain.

149. Mae cwricwlwm yr ysgol yn adlewyrchu blaenoriaethau LICC. Mae'n annog datblygu dysgwyr annibynnol, yn ymateb i'r agenda sgiliau ac yn paratoi'r disgyblion ar gyfer dysgu gydol oes.

Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Gradd1: Da gyda nodweddion rhagorol

150. Mae'r radd yma yn cyd-fynd â gradd hunan arfarnu'r ysgol. Mae'r radd yn adlewyrchu'r llu o nodweddion rhagorol sydd gan yr ysgol parthed y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd i ddysgwyr; y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY a'r ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal.

151. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:

- system fugeiliol yr ysgol sydd yn sicrhau caiff pob plentyn ei gefnogi'n dda;
- y perthnasau rhwng staff a dysgwyr;
- perthnasau cadarnhaol a chryf iawn gyda rhieni, gofalwyr a'r gymuned;
- trefniadau trosglwyddo effeithiol ar waith ar gyfer CA2/CA3;
- rhaglen ABCh sydd wedi ei chynllunio a'i chyflwyno'n dda;
- rhaglen cyfarwyddyd gyrfaoedd cynhwysfawr sydd yn dechrau yn B7; a'r

- defnydd effeithiol o wasanaethau cefnogi arbenigol.

Ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd i ddysgwyr

152. Mae'r canlynol yn amlygu sawl nodwedd ragorol parthed yr adran yma.

153. Mae'r ysgol yn cynllunio a rheoli'r trefniadau gofal yn effeithiol iawn. Mae'r cynhesrwydd, y gofal a'r parch cydrhwng y staff a'r disgyblion yn gryfder ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad academaidd, personol a chymdeithasol.

154. Darpara'r tiwtoriaid dosbarth, penaethiaid blwyddyn a'r UDA gefnogaeth dda iawn. Teimla'r disgyblion yn hyderus a chânt eu cefnogi gan athrawon sydd yn eu hadnabod yn dda iawn fel unigolion. Mae'r system gefnogi fugeiliol yn nodwedd gref iawn o waith yr ysgol.

155. Mae gan yr ysgol bolisi drws agored i rieni gysylltu gyda'r ysgol. Mae dyddiaduron disgyblion yn cynnwys gwybodaeth am ymddygiad, prydlondeb, presenoldeb a gwaith cartref. Maent yn darparu cyswllt dyddiol rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae rhieni a gofalwyr yn hysbys iawn am yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn yr ysgol trwy wefan yr ysgol, y prosbectws, cylchlythyron a chyswllt gyda'r staff. Ceir cymdeithas rhieni weithredol ac effeithiol iawn.

156. Rhoddir cyngor da iawn i ddisgyblion ar ddewis cyrsiau. Caiff disgyblion a'u rhieni eu hysbysu'n dda drwy lyfrynnau a nosweithiau rhieni. Darperir holiaduron opsiynau i ddisgyblion B9 a B11 i gynorthwyo'r ysgol i greu cwricwlwm cytbwys i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyngor da i ddisgyblion B11 ar ddewisiadau pynciau a gyrfaoedd i'r dyfodol i alluogi disgyblion i wneud dewisiadau hyddysg. Cynigir arweiniad gyrfaol yn y rhaglen ABCh. Caiff ei hategu'n dda gan gefnogaeth oddi wrth gyflogwyr sydd yn fentoriaid a Gyrfa Cymru.

157. Mae'r trefniadau pontio ar gyfer disgyblion B6 o'r ysgolion cynradd partner yn dda iawn. Mae athrawon yn buddsoddi cryn dipyn o amser ac ymdrech i sicrhau caiff disgyblion a'u rhieni eu cyflwyno'n dda i'r ysgol. Mae cysylltiadau cwricwlaidd a gweithgareddau allgyrsiol wedi eu datblygu'n dda. Ceir trefniadau rhagorol i ddisgyblion B6 ymgyfarwyddo â'u cymheiriaid gan gynnwys penwythnos preswyl a gŵyl chwaraeon. Mae trefniadau bugeiliol a chefnogi parthed trosglwyddo B6/B7 yn effeithiol iawn ac wedi eu datblygu'n dda. Mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym iawn a llwyddiannus i fywyd yr ysgol uwchradd.

158. Mae ansawdd y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd personol yn gryfder arbennig. Caiff ei gydlynu a'i dargedu'n effeithiol i ddiwallu anghenion pob grŵp oedran; mae'n flaengar ac yn gysylltiedig ag oed. Darpara'r asiantaethau allanol gefnogaeth dda iawn. Mae trefniadau effeithiol ar waith i archwilio effaith y rhaglen ar draws meysydd cwricwlaidd. Mae'r ysgol yn darparu cyfarwyddyd a chymorth pellach trwy hyfforddwyr dysgu.

159. Ceir rhaglen cyfarwyddyd gyrfaoedd hynod effeithiol. Mae aelodau o staff Gyrfa Cymru yn darparu cefnogaeth effeithiol i ddarpariaeth yr ysgol ac yn trefnu cyrsiau a gweithgareddau priodol. Mae athrawon a swyddogion gyrfaoedd yn cynnig cyfarwyddyd perthnasol iawn i ddysgwyr pan wnânt ddewisiadau gyrfa wrth drosglwyddo o B11 a B13. Darperir wythnos o brofiad gwaith ar gyfer disgyblion B10 a B12. Mae'r ysgol wedi ennill Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru ar gyfer addysg a chyfarwyddyd gyrfaoedd ac addysg yn gysylltiedig â gwaith.

160. Mae'r nodweddion da a ganlyn hefyd yn amlwg. Maent yn cynnwys:
    - polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer amddiffyn plant;
    - monitro effeithiol o bresenoldeb a phrydlondeb;
    - y fenter ysgolion iach lwyddiannus.
161. Mae'r cyngor ysgol yn gorff dylanwadol ac effeithiol iawn. Mae iddo gynrychiolaeth eang sydd yn cefnogi'r ysgol yn ei datblygiad. Mae'n cyfathrebu'r holl wybodaeth i ddisgyblion a myfyrwyr yn dilyn y cyfarfodydd. Mae'r ysgol yn gwrando ar y corff yma ac yn ei gynnwys ym mhroses hunan arfarnu'r ysgol. Roedd y cyngor yn hynod ganmoliaethus o ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer byw yn iach a lles y disgyblion.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

162. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:
    - arweinyddiaeth effeithiol y cydlynydd ADY;
    - darpariaeth dda iawn i ddisgyblion sydd ag ADY gyda chefnogaeth oddi wrth gynorthwywyr cymorth dysgu (CCD) effeithlon sydd wedi eu hyfforddi'n dda;
    - dynodi disgyblion sydd ag ADY yn gynnar;
    - cefnogaeth mewn dosbarthiadau prif ffrwd i ddisgyblion ag ADY wedi ei gydlynu a'i dargedu'n dda;
    - trefniadau cynhwysol beth bynnag fo'r anabledd;
    - cynnydd disgyblion mewn rhaglenni cefnogi llythrennedd/rhifedd unigol; a
    - mynediad i achrediad priodol ar ddiwedd CA4 ar gyfer pob disgybl sydd ar neu sydd wedi bod ar y gofrestr ADY.
163. Mae'r canlynol yn amlygu sawl nodwedd ragorol parthed yr adran yma.
164. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag ADY yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn adnabod ei disgyblion yn dda iawn, yn cydnabod amrywiaeth eu hanghenion ac yn hyrwyddo addysg gynhwysol yn effeithiol iawn.
165. Darpara'r cydlynydd AAA weledigaeth a chyfeiriad eglur, ynghyd ag ymdeimlad o bwrpas. Mae ganddi gysylltiadau effeithiol iawn gyda staff enwebedig ym mhob un o adrannau'r ysgol i gynllunio strategaethau a darpariaeth effeithiol i ddisgyblion sydd ag ADY.
166. Caiff prosesau'r ysgol tuag at ddynodiad cynnar o ddisgyblion sydd ag ADY eu sicrhau trwy'r cysylltiadau a sefydlwyd gyda'i hysgolion cynradd partner. Mae'r cydlynydd AAA yn gyfrifol am asesu anghenion unigolion, cynnal adolygiadau rheolaidd a ffurfio cynlluniau addysg unigol (CAU) yn unol â'r gofynion statudol.
167. Mae gan ddisgyblion sydd ag ADY fynediad llawn i'r cwricwlwm trwy eu cynnwys yn y dosbarthiadau prif ffrwd. Mae CCD a ddynodir i gefnogi unigolion neu grwpiau o ddisgyblion yn y brif ffrwd yn brofiadol, wedi eu hyfforddi a'u hysbysu'n dda gan y cydlynydd ADY a'r athrawon prif ffrwd.
168. Er mai ond ychydig ydynt mewn nifer, rhydd y CCD lefel uchel o gefnogaeth unigol sensitif i ddisgyblion yn yr adran cefnogi dysgu, trwy'r 'Cynllun Darllen', 'Successmaker', 'Dyfal Donc' a gwersi hybu rhifedd a llythrennedd.
169. Mae rhieni a gofalwyr disgyblion sydd ag ADY yn llwyr gefnogol a chânt eu cynnwys yn yr holl adolygiadau. Mae disgyblion yn dechrau mewn ysgol ofalgar, effeithlon a gwybodus. Mae hyn yn eu galluogi i wneud cynnydd da iawn. Maent yn ymddwyn yn eithriadol o dda a dangosant ymagweddau cadarnhaol iawn

tuag at waith. Mae 90% o'r disgyblion sydd ag ADY sydd wedi bod neu ar y gofrestr AAA yn cyflawni pum TGAU ar raddau A*-G o'i gymharu â 86% o ddisgyblion mewn addysg prif ffrwd yn genedlaethol. Mae disgyblion B10 a B11 sy'n dilyn medrau bywyd ar lefel mynediad yn cyflawni graddau hyd at Lefel 3.

170. Mae gweithdrefnau asesu, cofnodi ac adrodd da iawn yn diwallu'r gofynion statudol.

171. Mae'r nodweddion da a ganlyn yn cynnwys:
- cysylltiadau agos gyda'r ysgol arbennig leol;
- cysylltiadau gydag asiantaethau allanol a'r defnydd effeithiol a wneir o gefnogaeth a chyfarwyddyd ychwanegol;
- ymdriniaeth 'ymarferol' y llywodraethwr dynodedig ar gyfer ADY o fewn yr adran cefnogi dysgu; a'r
- gweithdrefnau effeithiol sydd ar gael i ddelio ag achosion o fwlio neu ymddygiad gwrthgymdeithasol.

172. Mae strategaethau da iawn ar waith i gefnogi disgyblion sydd â'u hymddygiad yn fygythiad i'w cynnydd nhw a chynnydd eraill. Sicrha'r strategaethau yma y caiff disgyblion eraill y cyfle i ddysgu heb fawr ddim o ymyrraeth ac aflonyddwch.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

173. Mae'r nodweddion rhagorol yn cynnwys:
- amgylchedd cefnogol lle caiff amrywiaeth cefndir disgyblion ei gydnabod a'i werthfawrogi;
- mynediad i bob rhan o'r ysgol i bob person anabl; a
- parch at amrywiaeth yn y gymuned ac o fewn bywyd yn gyffredinol.

174. Mae'r canlynol yn amlygu sawl nodwedd ragorol parthed yr adran yma.

175. Mae gan yr ysgol bolisïau, gweithdrefnau ac arferion effeithiol ar gyfer dynodi ac ystyried cefndiroedd disgyblion. Caiff pob disgybl ei werthfawrogi fel unigolyn. Daw disgyblion o nifer fechan o ysgolion cynradd partner. Mae'r ysgol yn llwyr ymwybodol o gefndir cymdeithasol, addysgiadol, ethnig ac ieithyddol y disgyblion ac yn cynnig cefnogaeth o ansawdd da.

176. Sicrha'r ysgol fod yr holl ddisgyblion yn cael cyfle cyfartal a mynediad cyfartal i holl fywyd yr ysgol. Mae'n ymdrin yn rhagweithiol ac effeithiol â materion cenedl. Cynigir dewis agored o gyrsiau TGAU a galwedigaethol i fechgyn a merched, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol lle cynigir rygbi a phêl-droed i ferched a hoci i'r bechgyn.

177. Mae'r ysgol yn weithredol wrth sicrhau caiff dysgwyr anabl eu trin yn gyfartal heb ddioddef darpariaeth lai ffafriol. Caiff y cynllun hygyrchedd ei weithredu'n llawn a cheir cynllun cyfartaledd da iawn i bobl anabl.

178. Mae'r nodweddion da a ganlyn yn cynnwys:
- darpariaeth a gwaith yr ysgol parthed hyrwyddo cydberthnasau hiliol; ac
- ymdriniaeth drylwyr iawn i wrth-fwlio.

179. Mae'r ysgol yn cynnal safonau da iawn o ymddygiad fel llwyfan ar gyfer dysgu.

180. Mae gweithdrefnau bugeiliol yr ysgol yn ogystal â'r cwricwlwm ffurfiol yn cyfrannu'n fawr tuag at barchu amrywiaeth a chyfartaledd.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

181. Mae'r radd yma'n cyd-fynd â gradd hunan arfarnu'r ysgol. Y nodweddion rhagorol yw'r
    - arweinyddiaeth rymus gan y pennaeth a'i UDA;
    - monitro a'r gwerthuso perfformiad gan uwch reolwyr, rheolwyr canol a'r llywodraethwyr;
    - rhannu gwerthoedd ymhlith pawb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol; a'r
    - pwysigrwydd a rhoddir i'r datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) o'r staff addysgu a chefnogi.

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfeiriad eglur ac yn hyrwyddo safonau uchel

182. Gwneir amcanion a disgwyliadau'r ysgol yn eglur i bawb, yn staff, disgyblion ac ymwelwyr. Mae'r modd y mae'r ysgol yn gweithredu yn sicrhau fod y nodau a'r amcanion yma yn gwbl weithredol ym mywyd yr ysgol. Mae pawb sydd yn gysylltiedig â'r ysgol yn ymrwymedig i'r amcanion yma.

183. Mae'r ysgol wedi datblygu ers ei sefydlu wyth mlynedd yn ôl, trwy arweinyddiaeth gref ei phennaeth. Mae'n gweithio mewn cytgord gyda'i uwch arweinwyr a'r corff llywodraethol. Mae'n arwain gyda gweledigaeth, gan roi cyfeiriad strategol eglur ac yn ddylanwadol iawn wrth hyrwyddo gwerthoedd yr ysgol trwy esiampl. Mae ef a'i UDA yn rymus ac maent wedi symud yr ysgol yn ei blaen. Maent wedi tywys y staff a chymuned yr ysgol gyda nhw.

184. Mae yn uchel ei barch gan y staff, disgyblion, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Mae wedi datblygu cryfderau'r ysgol trwy gyflwyno mentrau a strwythurau newydd i gynorthwyo datblygiad yr ysgol i'r dyfodol.

185. Caiff y pennaeth ei gefnogi'n fedrus gan ei UDA; gyda phob un ohonynt yn darparu arweinyddiaeth ragorol yn eu meysydd unigol o gyfrifoldeb. Maent yn cynnal safonau uchel trwy eu presenoldeb rheolaidd o amgylch yr ysgol. Cânt hefyd eu cefnogi'n gryf gan y penaethiaid blwyddyn.

186. Mae pob aelod o'r UDA wedi ei gysylltu â grŵp o adrannau ac mae'r cysylltiadau rheoli yma yn hynod effeithiol. Mae'r monitro yn drylwyr ond yn gefnogol. Mae aelodau staff o fewn ac ar draws adrannau yn monitro addysgu ei gilydd. Cyflawnir hyn yn ffurfiol ac yn anffurfiol i godi safonau ac ansawdd yr addysgu.

187. Cynhelir cyfarfodydd staff, adrannol a bugeiliol yn rheolaidd. Mae lefelau cyfathrebu eithriadol o effeithiol yn bodoli rhwng aelodau o'r staff a'r UDA. Cynhelir cyfarfodydd rheolaethol a bugeiliol yn ffurfiol ac anffurfiol gydag agenda i werthuso cynnydd a chynllunio ar gyfer gwelliant.

188. Dealla'r rheolwyr canol eu swyddogaethau yn eglur ac maent oll yn ymgymryd â'r rolau yn effeithiol iawn. Ceir llinellau clir o atebolrwydd oddi wrth bawb sydd â chyfrifoldeb rheolaeth ganol i'w rheolwyr llinell ac yn y pen draw i'r pennaeth.

189. Mae rheolwyr canol o ansawdd uchel yn ymrwymedig i godi safonau trwy fonitro gwaith a chynnydd disgyblion yn rheolaidd. Caiff deilliannau monitro eu trafod

gydag aelodau cyswllt yr UDA. Bydd y cyswllt UDA a'r pennaeth adran wedyn yn mynd â'r deilliannau at y pennaeth ar gyfer gwerthuso pellach. Mae ansawdd yr arweinyddiaeth ar bob lefel yn ffactor arwyddocaol wrth gynnal y safonau uchel.

190. Mae'r ysgol yn weithredol wrth hyrwyddo cyfartaledd cyfle i bawb. Caiff bawb yn yr ysgol eu trin gyda pharch a gwerthfawrogir eu cyfraniad. Ceir lefelau uchel o roi grym a pharch sydd yn gwella'r ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn.

191. Sicrha'r ysgol ddatblygiad proffesiynol y staff addysgu, gweinyddol a technegol ym mron pob achos yn unol ag anghenion unigolion a'r ysgol. Anogir aelodau o'r staff i ymgymryd â datblygiad proffesiynol. Rhennir deilliannau DPP o fewn yr adran, a lle y bo'n briodol, yr ysgol gyfan er mwyn codi safonau.

192. Mae aelodau o staff yn rhannu arfer addysgu da gyda'i gilydd. Lle dynodir arfer dda, bydd yr aelod yna o'r staff yn cyflwyno gwers ffurfiol gyda'r athrawon yn cymryd rôl y disgyblion. Mae pob aelodau o'r staff, y rhai profiadol a newydd, yn elwa'n sylweddol o'r arfer yma.

193. Mae'r ysgol wedi datblygu sawl blaenoriaeth genedlaethol yn llwyddiannus. Ceir nodweddion da iawn, yn enwedig datblygu'r fenter ysgolion iach, ffyrdd o fyw a chynhwysiant cymdeithasol. Mae'r ysgol yn credu'n gryf ym menter Llwybrau Dysgu 14-19 a chydweithio â sefydliadau eraill. Yn ychwanegol, ym Medi 2008, dechreuodd yr ysgol y CBC Uwch yn y chweched dosbarth.

194. Mae gan yr ysgol system gadarn o reoli perfformiad sydd yn gymwys i bob aelodau o'r staff addysgu, technegol a gweinyddol. Gosodir targedau ar gyfer datblygiad proffesiynol unigol bob athro a tharged ar gyfer datblygiad ysgol-gyfan.

195. Mae'r rhaglen ar gyfer sefydlu athrawon sydd newydd gymhwyso ac athrawon sydd yn newydd i'r ysgol wedi ei threfnu a'i rheoli'n dda iawn. Mae'r pennaeth yn cyfranogi'n weithredol a chadarnhaol yn y broses trwy ymweld â'r staff yma wrth iddynt addysgu, a'u cefnogi.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau

196. Gwna'r corff llywodraethol gyfraniad rhagorol at arweinyddiaeth yr ysgol.

197. Mae'n cynnwys aelodau galluog a phrofiadol iawn sydd wedi cefnogi'r ysgol dros nifer o flynyddoedd, ac aelodau a benodwyd yn ddiweddar. Defnyddir eu profiad proffesiynol unigol yn effeithiol, nid yn unig yng ngwaith y corff llywodraethol ond hefyd wrth wella dimensiwn cwricwlaidd a chymunedol yr ysgol.

198. Mae athroniaeth y llywodraethwyr o barch tuag at bawb a gweithio mewn partneriaeth gydag uwch reolwyr a rheolwyr canol a gyda staff eraill, yn ffactorau allweddol wrth godi safonau. Maent wedi sicrhau nad oes unrhyw rwystrau rhyngddynt â'r staff.

199. Mae gan y corff llywodraethol ddisgwyliadau uchel o'r ysgol. Mae gan bob aelod ddealltwriaeth eglur o brif flaenoriaethau'r ysgol trwy effeithiolrwydd y strwythur o is-bwyllgorau.

200. Mae cadeirydd y llywodraethwyr a chadeiryddion yr is-bwyllgorau yn trafod yn gyson gyda'r pennaeth. Sicrhânt fod y pwyllgorau yma'n gweithio'n gynhyrchiol er lles yr ysgol.

201. Mae llywodraethwyr yn amlwg yn deall eu rolau ac yn gweithredu fel ffrindiau beirniadol mewn modd effeithiol iawn. Maent yn wybodus iawn ar bob agwedd o berfformiad yr ysgol ac yn derbyn adroddiadau cyson oddi wrth reolwyr yr ysgol.

202. Mae llywodraethwyr yn ymgyfarwyddo â gweithrediad yr ysgol yn dilyn y cyfarfodydd o'r is-bwyllgorau a gynhelir yn gynnar yn y bore. Mae eu trafodaethau gydag aelodau o'r staff yn dilyn y cyfarfodydd yma yn rhoi gwybodaeth helaeth i'r llywodraethwyr o'r ffordd caiff yr ysgol ei rhedeg.

203. Maent wedi eu hysbysu'n dda o gefnogaeth rhieni neu unrhyw bryderon trwy fynychu nosweithiau rhieni mewn grwpiau bychain yn eu tro i fesur barn.

204. Maent yn ymwneud yn llwyr â rheolaeth strategol yr ysgol. Mae ansawdd eu rheolaeth strategol a'u hymwneud â'r prosesau arfarnu yn nodweddion rhagorol. Mae trafodaethau yn fanwl a heriol. Maent hefyd yn gweithredu fel clust i wrando i'r pennaeth. Maent yn ymdrechu i sicrhau bod disgyblion yn derbyn yr addysg orau bosibl.

205. Mae llywodraethwyr yn dal eu hunain yn atebol am effeithiolrwydd, priodolrwydd i bwrpas a gwerth am arian o bob gweithdrefn ac arfer. Maent wedi cynnal proses hunan arfarnu o'u gwaith eu hunain. Mae deilliannau'r arfarniad hwn yn sail i'w rôl i'r dyfodol.

206. Mae llywodraethwyr yn dadansoddi eu perfformiadau a'u hanghenion hyfforddiant eu hunain gyda golwg ar welliant parhaus. Maent yn mynychu sesiynau hyfforddiant llywodraethwyr y sir yn rheolaidd yn ogystal â hyfforddiant a gynhelir yn fewnol gan yr UDA.

207. Mae pob un o'r llywodraethwyr wedi eu cysylltu gydag adrannau ac agweddau ar waith yr ysgol. Mae'r cysylltiadau yma wedi'u hen sefydlu. Cynhelir cyfarfodydd tymhorol rheolaidd gyda'r adrannau i werthuso eu cynlluniau datblygu adran (CDA) a'u canlyniadau arholiad mewn modd cadarnhaol. Maent hefyd yn sicrhau fod targedau adrannol yn heriol ac yn gweithio gyda'r adrannau, trwy'r UDA, i oresgyn unrhyw bryderon o ran tangyflawni. Ar ddiwedd bob cylch o gyfarfodydd, maent yn arfarnu'r deilliannau i weld sut mae adrannau wedi ymateb i'w targedau.

208. Mae prosbectws yr ysgol a dogfennau eraill yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

209. Diwellir yr holl ofynion rheoliadol.

Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

210. Mae'r radd yma yn cyd-fynd â gradd hunan arfarnu'r ysgol. Y nodweddion rhagorol yw:

- diwylliant cadarn o hunan arfarnu;
- adroddiadau hunan arfarnu manwl a gynhyrchir gan uwch reolwyr a rheolwyr canol;
- ymrwymiad ac ymwneud yr holl staff addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu yn y broses hunan arfarnu;

- anogaeth a rhoddir i ddisgyblon a rhieni i ymwneud â phroses adolygu'r ysgol a gwaith adrannau unigol;
- cysylltiadau cryf sydd yn bodoli rhwng rheoli perfformiad, hunan arfarnu, cynlluniau datblygu a DPP; a'r
- defnydd gofalus o adnoddau'r ysgol i gefnogi cynllunio a blaenoriaethau ysgol-gyfan.

Pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu

211. Mae hunan arfarnu'n gadarn ac wedi gwreiddio ym mywyd yr ysgol.

212. Mae arweinwyr a rheolwyr yn hysbys iawn am eu meysydd o gyfrifoldeb. Caiff hyn ei gadarnhau gan ganfyddiadau'r tîm arolygu sydd yn cytuno gyda graddau'r ysgol am bob un o'r cwestiynau allweddol.

213. Mae ansawdd y monitro gan aelodau cyswllt o'r UDA i glystyrau o adrannau yn dda iawn. Mae hyn yn sicrhau fod ansawdd y gwaith monitro mae penaethiaid adran a phenaethiaid blwyddyn yn ei gyflawni fel rhan o'u rôl yn effeithiol. Caiff hyn ei gyflawni trwy arsylwadau gwersi ffurfiol ac anffurfiol ac archwilio manwl o waith disgyblion.

214. Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn ddogfen manwl tu hwnt sydd yn amlinellu perfformiad yr ysgol yn erbyn y saith cwestiwn allweddol fel y'i defnyddir yn yr adroddiad hwn.

215. Ceir diwrnod yn nhymor yr haf pan mae'r holl staff, y rhai sydd yn addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu, ymwneud â'r broses hunan arfarnu ar lefel ysgol gyfan a lefel adrannol. Hefyd, defnyddir ymgynghorwyr allanol mewn ffordd dda iawn i adolygu gwaith adrannau ac agweddau ysgol-gyfan eraill.

216. Ceir polisi hunan arfarnu ysgol-gyfan cynhwysfawr sydd yn amlinellu rolau'r holl staff yn y broses yn eglur. Ceisir safbwyntiau disgyblion yn weithredol trwy holiaduron ysgol-gyfan ac adrannol, gwerthusiadau gan ddisgyblion a rôl ryngweithiol y cyngor ysgol. Ceisir safbwyntiau rhieni trwy holiaduron a chyswllt rheolaidd â rhieni trwy'r defnydd cynyddol o wefan yr ysgol. Mae aelodau unigol o'r corff llywodraethol wedi eu cysylltu ag adrannau ac yn ymwneud yn llawn â'r broses hunan arfarnu ar lefel ysgol-gyfan ac adrannol. O ganlyniad, mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r broses monitro ac adolygu yn dda iawn.

Effeithiolrwydd y cynllunio er mwyn sicrhau gwelliant

217. Defnyddir dadansoddiad manwl o ddata, gan gynnwys canlyniadau profion ac arholiadau, i lywio'r cynllunio a'r datblygu ar draws yr ysgol. Gosodir targedau heriol ar gyfer y disgyblion a chanddynt eu hunain a gaiff eu hadolygu yn rheolaidd.

218. Caiff y cynlluniau datblygu ysgol ac adrannol eu cysylltu'n agos â'r broses hunan arfarnu. Mae cynllunio datblygu ar lefel ysgol-gyfan ac adran yn seiliedig ar gylch blynyddol. Mae'r cynlluniau datblygu yn fanwl iawn a chânt eu monitro a'u hadolygu'n drylwyr. Mae'r cynlluniau strategol yn seiliedig ar gylch tair blynedd.

219. Mae'r CDA yn adlewyrchu blaenoriaethau ysgol-gyfan yn ogystal ag anghenion pwnc-benodol a meysydd a ddynodir trwy hunan arfarniad. Caiff cynlluniau eu costio'n ofalus a'u cysylltu â blaenoriaethau adrannol ac ysgol-gyfan. Ystyrir y cynlluniau datblygu fel dogfennau gweithredol yn y gwaith o fonitro'r addysgu a'r dysgu.

220. Caiff effaith y gweithgorau, er enghraifft y grŵp addysgu a dysgu, hefyd fantais gynyddol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu o fewn yr ysgol a gwneir defnydd da o staff a leolir yn yr ysgol i gyflwyno hyfforddiant ysgol-gyfan. Mae aelodau staff hefyd yn elwa oddi wrth raglen DPP drefnus iawn a rhoddir cyfrifoldeb i reolwyr canol reoli datblygiad proffesiynol eu timau yn unol â'u blaenoriaethau unigol.

221. Mae hunan arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn llwyddiannus ac effeithiol iawn ac wedi arwain at welliannau arwyddocaol a nodir o fewn yr adroddiad yma. Mae cynnydd ers yr arolygiad diwethaf wedi bod yn rhagorol wrth rannu'r arfer dda a nodwyd o fewn yr ysgol parthed addysgu a dysgu. Hefyd, gwnaed cynnydd gyda disgyblion galluog ac o allu canolig, a gyda'r lefelau presenoldeb a phrydlondeb. Bellach rhoddir amser digonol i'r pynciau sylfaen o fewn y cwricwlwm.

Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Gradd 1: Da gyda nodweddion rhagorol

222. Mae'r radd yma yn cyd-fynd â gradd hunan arfarnu'r ysgol. Y nodweddion rhagorol yw:

- lleoliad ac addasrwydd staff addysgu a chefnogi i gyflwyno rhaglen gwricwlaidd yr ysgol;
- ansawdd ac ystod yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu a dysgu;
- rheolaeth effeithiol ac effeithlon o'r gyllideb i sicrhau y caiff amcanion a datblygiad strategol yr ysgol eu gwireddu;
- cynllunio a chyflwyno rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol i holl aelodau'r staff; a'r
- cynllunio strategol dros wyth mlynedd o fewn cyllideb gyfyng i gyflawni staffio, adnoddau ac adeiladau o'r ansawdd uchaf.

Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staff, adnoddau dysgu ac adeiladau ac ystafelloedd

223. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n dda gydag athrawon hynod ymroddedig sydd â'r cymwysterau a'r profiad priodol i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys. Mae nifer y staff yn briodol i ddiwallu anghenion y disgyblion o ran oed, ystod a gallu. Mae mwyafrif helaeth yr athrawon yn gweithio o fewn eu pwnc arbenigol yn effeithiol iawn. Mae'r lleiafrif o athrawon sydd yn addysgu ychydig o wersi y tu allan i'w maes arbenigol yn cael cefnogaeth ragorol oddi wrth benaethiaid adran ac uwch aelodau o staff.

224. Drwy weithredu ymarfer ail-fodelu'r gweithle, gwelwyd budd sylweddol i'r staff addysgu. Drwy benodi ystod o staff cefnogi a hyfforddwyd yn dda, rhoddir cymorth da iawn i'r staff addysgu a'r disgyblion. Mae'r gwelliannau yn y ffordd y cyflwynir y cwricwlwm a'r safonau da a gyflawnwyd gan ddisgyblion a myfyrwyr yn dyst i lwyddiant yr ysgol wrth leihau baich gwaith clerigol a gweinyddol y staff addysgu.

225. Mae'r ffordd y caiff staff technegol eu lleoli mewn gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a chelf yn briodol. Mae'r ysgol yn cyflogi pum CCD sydd yn darparu cymorth effeithiol i ddisgyblion yn y dosbarth. Defnyddir mentrau megis 'Cynllun

Darllen', a 'Successmaker' i godi safonau llythrennedd. Rhoddir pob cyfle i aelodau o'r staff cefnogi i ddatblygu eu medrau arbenigol.

226. Fodd bynnag, mae nifer y staff cefnogi yn annigonol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol nifer gynyddol o ddisgyblion yn llawn.

227. Mae ansawdd rhagorol ystod eang o adnoddau wedi bod o fudd i'r addysgu a'r dysgu. Cyflawnwyd hyn trwy:

- buddsoddiad doeth mewn TGCh sydd wedi arwain at gymhareb disgybl/ cyfrifiadur hael iawn o 1:2.8;
- adnewyddu'r holl gyfrifiaduron ar raglen dreigl tair blynedd;
- gosod byrddau gwyn rhyngweithiol ym mhob ystafell ddosbarth a sefydlu cyfleuster fideo gynadledda;
- defnydd mesuradwy o lwfansau'r pen gan adrannau;
- sefydlu canolfan adnoddau ddeniadol gyda swît o gyfrifiaduron ar gyfer myfyrwyr y chweched dosbarth; a
- datblygu rhwydwaith gyfrifiadurol i alluogi rhieni a disgyblion i gael mynediad at gynlluniau gwers a gwybodaeth uniongyrchol am ddisgyblion.

228. Llwyddodd yr ysgol i gyrraedd y rhestr fer yng ngwobr 'Dod â Chreadigrwydd Addysg i Bawb' (BECTA) sydd yn agored i holl ysgolion Prydain. Mae hyn yn cadarnhau lefel ragorol o hyfedredd technoleg gwybodaeth a gyflawnir gan ddisgyblion o fewn y dosbarth.

229. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Mae'r adeiladau wedi datblygu yn unol â'r twf yn niferoedd y disgyblion ers i'r ysgol agor yn 2000. Darpara'r ysgol gyfan awyrgylch dymunol, cadarnhaol ac ysgogol ar gyfer addysgu a dysgu. Mae'r arddangosfeydd o waith disgyblion yn y dosbarthiadau ac ar hyd y mwyafrif o'r coridorau yn amlwg yn cynrychioli'r ethig gwaith rhagorol a osodir gan athrawon a disgyblion.

230. Fodd bynnag, er gwaethaf rhai nodweddion rhagorol yn yr adeiladau a'r ystafelloedd, mae diffyg llyfrgell/canolfan adnoddau ganolog i ddatblygu medrau dysgu annibynnol y disgyblion a'r myfyrwyr yn ddiffyg.

Pa mor effeithlon y rheolir adnoddau er mwyn sicrhau gwerth am arian

231. Dengys rheolaeth ac arolygaeth o'r gyllideb a ddyrennir gan y pennaeth a'r rheolwr busnes nodweddion rhagorol. Sicrha'r ysgol berthynas agos iawn rhwng y defnydd o adnoddau a meysydd dynodedig yr ysgol ar gyfer datblygu. Mae hyn yn gryfder arwyddocaol iawn yn yr ysgol.

232. Drwy gynllunio, i weithredu, monitro ac adolygu'r gyllideb sydd ar gael yn systematic a thrylwyr sicrheir lefel uchel o gost-effeithiolrwydd ym mhob agwedd ar wariant a buddsoddiad yr ysgol. Mae'r cynllunio ariannol strategol rhagorol dros wyth mlynedd wedi llwyddo i gyflawni cynnydd eithriadol yn esblygiad yr ysgol.

233. Drwy archwilio ac adolygu bob gwariant gan y llywodraethwyr a'r uwch staff yn drylwyr a rheolaidd sicrheir gwerth rhagorol am arian ym mhob agwedd ar y broses gyllidol. Cedwir 5% o'r gyllideb wrth gefn yn flynyddol gan y corff llywodraethol. Dengys hyn gynllunio ariannol cadarn gan danategu rheolaeth gyllidol yr ysgol. Mae hyn yn gryfder arwyddocaol yng nghyd-destun ariannu'r ysgol yn ôl y pen gan yr awdurdod lleol gan ei fod yn un o'r rhai isaf yng Nghymru.

234. Canmolodd adroddiad archwilio a gyflawnwyd yn ystod haf 2007 systemau rheoli cyllid yr ysgol. Ymdriniodd yr ysgol yn llawn gyda'r mân argymhellion a wnaed ac fe'u monitrwyd yn ofalus gan yr is-bwyllgor cyllid ac adnoddau.

235. Mae'r ysgol yn llwyddiannus wrth chwilio am bob trywydd posibl i godi arian ychwanegol. Mae'n cydweithio'n agos gyda Choleg Y Barri i gael cyllid i ddatblygu elfennau galwedigaethol pellach trwy gyfrwng y Gymraeg.

236. Rhoddir yr ystyriaeth bennaf i ddatblygiad proffesiynol cynnar a DPP y staff. Mae hwn yn un o gryfderau'r ysgol gyda'r targedau blynyddol a osodir yn y CDY yn glynu'n agos iawn at y fenter 'Cronfa Ysgolion Gwell'. Ceisir hefyd grantiau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar sail unigol yn ychwanegol at geisiadau llwyddiannus am fwrsarïau grŵp.

237. Mae'r rhaglen hyfforddiant mewn-swydd helaeth yn cynnig cyfraniad rhagorol i ddatblygiad proffesiynol yr holl staff addysgu a chefnogi trwy:

- gweithredu hyfforddiant yn unol â'r anghenion a nodwyd yn y rheoli perfformiad o weithdrefnau staff;
- lleoli amrediad eang o ddulliau hyfforddi i sicrhau bod medrau staff mewnol, darparwyr allanol priodol a chyfleoedd i rannu arfer da, oll yn cael eu defnyddio;
- cefnogi aelodau unigol o staff i ymgymryd â chyrsiau penodol i ddatblygu eu medrau personol;
- sefydlu gweithgorau mewnol; a'r
- darparu pecynnau hyfforddiant a datblygiad addas i'r holl staff cefnogi, technegol a gweinyddol.

238. Gweithredir rhaglen ragorol o gefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff sydd newydd gymhwyso o fewn yr ysgol. Ceir amserlen strwythuredig a gynllunnir yn flynyddol i sicrhau fod yr holl athrawon newydd gymhwyso ac athrawon yn eu tair blynedd gyntaf yn derbyn y cyfarwyddyd, y cyngor a'r gefnogaeth briodol. Mae'r ysgol yn gweithredu rhaglen lawn o gefnogaeth a hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr ar hyfforddiant cychwynnol i athrawon mewn cydweithrediad ag UWIC.

239. Darpara'r ysgol 10% o'r amser addysgu ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu. Defnyddir yr amser yma'n effeithiol. Caiff ei adlewyrchu yn y ganran uchel o wersi sydd yn dda neu yn dda gyda nodweddon rhagorol.

240. Cwblhawyd gwiriadau y Swyddfa Cofnodion Troseddol ar gyfer yr holl staff addysgu, cefnogi a gwirfoddol sydd yn gweithio yn yr ysgol, gan gynnwys aelodau o'r corff llywodraethol.

241. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i defnydd o adnoddau yn flynyddol i lywio'r gwaith cynllunio a buddsoddi o ran adnoddau i'r dyfodol.

242. Mae'n cyflawni gwerth rhagorol am arian trwy:

- safonau rhagorol a gyflawnir gan ei disgyblion;
- rheoli a lleoli staff addysgu a chefnogi mewn ffordd graff i sicrhau'r mewnbwn o'r ansawdd uchaf i'w disgyblion a'i myfyrwyr;
- buddsoddiad doeth yn natblygiad proffesiynol ei staff addysgu a chefnogi;

- buddsoddiad mewn amrediad eang o adnoddau rhagorol i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys;
- rheolaeth graff o'r gyllideb i gyflwyno'r blaenoriaethau a ddynodwyd yn ei CDY; a'r
- medrau arwain a rheoli o ansawdd uchel a geir o fewn yr ysgol.

243. Mae ystod ac ansawdd y cyrsiau sydd ar gael, y deilliannau yn nhermau canlyniadau arholiadau allanol a'r cyfraniad sylweddol a wneir gan y myfyrwyr i fywyd cyffredinol yr ysgol a'r gymuned yn sicrhau bod y chweched dosbarth yn darparu gwerth da iawn am arian.

Ymateb yr ysgol i'r arolygiad

Rydym yn hynod o falch o dderbyn yr adroddiad a'r gydnabyddiaeth a roddir i lwyddiant pawb sydd â chysylltiad â'r ysgol sydd wedi sefydlu ysgol dda iawn gyda nodweddion rhagorol. Mawr yw ein gwerthfawrogiad o broffesiynoldeb, trylwyredd a chwrteisi'r tîm arolygu a dan arweiniad Mr Gwyn Thomas, yr Arolygydd Cofrestredig. O ganlyniad bu y broses arolygu yn bositif a chynhyrchiol.

Roeddem yn hynod o falch fod yr arolygwyr wedi cydnabod pa mor eithriadol oedd safon ymddygiad ein disgyblion a bod safonau addysgu a bugeiliol yr ysgol yn nodweddion rhagorol.

Ein nod wrth sefydlu ysgol newydd cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg oedd creu sefydliad lle mae gwerthoedd eglur yn cael eu harddel gan bawb sy'n gweithio ac yn astudio yma. O ganlyniad, mae hi'n bosibl felly y daw'r boddhad mwyaf o wybod bod cydnabyddiaeth yn cael ei roi i'r ffaith fod yr ysgol yn gymuned waraidd iawn lle mae gan ddisgyblion a myfyrwyr ymagweddau cadarnhaol iawn tuag at eu gwaith. Mae disgyblion a myfyrwyr yn ymdrechu i gyflawni'u gorau glas ac yn falch i fod yn aelodau o'r ysgol.

Gyda'n gilydd rydym wedi creu ysgol sydd ag ethos Gymreig eithriadol lle mae sgiliau dwyieithog y disgyblion hefyd wedi cael eu cydnabod fel eu bod yn rhagorol. Maent yn trosglwyddo eu medrau ieithyddol o un iaith i'r llall yn ddiffwdan.

Drwyddi draw, mae'r tîm arolygu wedi nodi oherwydd safon yr arweinyddiaeth, y gefnogaeth i ddisgyblion, ehangder y cwricwlwm, gan gynnwys yr ystod eang o weithgareddau allgyrsiol ac ymddygiad rhagorol y disgyblion a'r myfyrwyr bod yr ysgol yn cynnig gwerth da iawn am arian.

Mae llawer, felly wedi'i gyflawni ond byddwn yn parhau i ymateb gyda brwdfrydedd a phroffesiynoldeb diflino i ymateb i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad. Bydd hyn yn rhan o'n cynllunio strategol fel ein bod yn cynnal ein safonau yn ogystal â'u datblygu ymhellach yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd copïau o'n cynllun datblygu ar gael i rieni a bydd adroddiad blynyddol y corff llywodraethol yn amlinellu y cynnydd rydym yn ei wneud er mwyn gwireddu argymhellion yr arolygwyr.

Atodiad 1

Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Math o ysgol	Uwchradd
Ystod oedran y disgyblion	11 - 18
Cyfeiriad yr ysgol	Heol Colcot Y Barri Bro Morgannwg
Cod post	CF62 8YU
Rhif ffôn	01446 450280

Pennaeth	Dr Dylan E Jones
Dyddiad penodi	Ionawr 2000
Cadeirydd y llywodraethwyr	Mr Geraint Evans
Arolygydd cofrestredig	Mr W Gwyn Thomas
Dyddiadau'r arolygiad	17 – 20 Tachwedd 2008

Atodiad 2

Data a dangosyddion ysgol

Grŵp blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	134	141	132	141	143	90	60	841

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyfwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	58	3	60

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	14.02 : 1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	neb
Cyfartaledd maint grŵp addysgu	20.32
Cymhareb cyswllt gyffredinol (canran)	70.01%

Canran presenoldeb ar gyfer y tri thymor cyflawn cyn yr arolygiad								
	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13	Ysgol gyfan
Tymor 1	94.6	93.6	92.5	91.5	89.8	89	82.7	92.4
Tymor 2	94.3	92.6	92.7	93.01	90.01	84	86.7	92.5
Tymor 3	93.2	91.8	90.7	88.4	96.5	85.1	84.3	91.8

Canran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim	8%
Nifer y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	24

Atodiad 3

Canlyniadau Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol
Diwedd cyfnod allweddol 3:

Canlyniadau Asesiadau CA3 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2008															
Cyfanswm nifer y disgyblion yn B9: 146															
Canran y disgyblion ar bob lefel															
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	6	7	8	PE
Saesneg	Asesiad	Ysgol							9	16	43	27	5		
	athro	Cenedlaethol							7	21	36	24	9		
Cymraeg	Asesiad	Ysgol							6	13	45	28	8		
	athro	Cenedlaethol							6	20	37	26	9		
Mathemateg	Asesiad	Ysgol						1	6	14	24	31	23		
	athro	Cenedlaethol						1	8	20	28	27	14	1	
Gwyddoniaeth	Asesiad	Ysgol								13	44	29	14		
	athro	Cenedlaethol								21	35	26	10		

D Disgyblion a eithrir dan drefniadau statudol o ran o'r Cwricwlwm Cenedlaethol neu'r cyfan ohono
A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau ar wahân i absenoldeb
W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1
PE Perfformiad Eithriadol, lle mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn perfformio uwchlaw lefel 8

Canran y disgyblion sy'n cyrraedd o leiaf lefel 5 mewn mathemateg, gwyddoniaeth a naill ai Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf) yn ôl asesiad athro			
Yn yr ysgol	70.34	Yng Nghymru	57

Canlyniadau Arholiadau Cyhoeddus:

Ar gyfer disgyblion 15 oed, canlyniadau mewn TGAU, Cymhwyster Lefel Mynediad, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 15 oed ar gofrestr yr ysgol ym mis Ionawr 2007	120
Cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU neu CGCC fesul disgybl	467

Canran y disgyblion 15 oed yn 2007 a:	Ysgol	AU	Cymru
safodd 5 arholiad TGAU neu fwy neu gymhwyster cyfwerth	99%	93%	87%
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i C, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	72%	62%	54%
enillodd o leiaf 5 gradd TGAU A* i G, y cymwysterau galwedigaethol cyfwerth neu gyfuniad o'r ddau	98%	91%	86%
enillodd raddau A*-C TGAU mewn mathemateg, gwyddoniaeth, Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf (y dangosydd pwnc craidd)	48/%	50%	44%
safodd o leiaf un cymhwyster lefel Mynediad, cwrs byr TGAU neu TGAU	99%	99%	96%
enillodd un TGAU gradd A*-C neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	93%	84%	77%
enillodd un TGAU gradd A*-G neu fwy neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	99%	96%	93%
na enillodd unrhyw radd TGAU neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfwerth	1%	4%	7%
enillodd un cymhwyster lefel Mynediad neu fwy yn unig	Dim	1%	2%
enillodd Ran 1 CGCC, CGCC ar lefel Sylfaenol neu CGC lefel 1	-	-	-
enillodd Ran 1 CGCC, CGCC ar lefel Canolradd neu CGC lefel 2	-	-	-

Ar gyfer disgyblion 17 oed, canlyniadau mewn Safon Uwch/UG, CGCC a CGC	
Nifer y disgyblion 17 oed ym mis Ionawr 2007	70
Nifer y disgyblion a safodd 2 arholiad safon uwch TAG neu fwy neu gymwysterau cyfwerth yn 2007	53
Nifer y disgyblion a safodd lai na 2 arholiad safon uwch TAG neu gymwysterau cyfwerth yn 2007	17

	Ysgol	AU	Cymru
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-C	65% *	74%	68%
Canran y disgyblion a safodd a gyflawnodd 2 neu fwy o raddau A-E	96%*	97%	94%
Cyfartaledd sgôr pwyntiau fesul ymgeisydd yn sefyll 2 neu fwy o bynciau	19	23	20
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Canolradd neu CGC ar lefel 2	13	-	-
Nifer y disgyblion a gyflawnodd CGCC Uwch neu CGC ar lefel 3	8*	-	-

Atodiad 4

Sail dystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd arolygwyr gyfanswm o 31 o ddiwrnodau yn yr ysgol ac ymunodd dirprwy bennaeth yr ysgol â nhw fel enwebai. Cynhaliwyd cyfarfod cyn cychwyn yr arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr yn ymweld â:

- 58 o wersi;
- cyfnodau cofrestru a gwasanaethau; a
- rhai gweithgareddau allgyrsiol.

Cyfarfu aelodau o'r tîm arolygu gyda:

- staff, rhieni a'r corff llywodraethol cyn yr arolygiad;
- uwch reolwyr, rheolwyr canol, athrawon, cynorthwywyr cefnogi a staff gweinyddol;
- grwpiau o ddisgyblion yn cynrychioli pob grŵp blwyddyn;
- cynrychiolwyr o'r cyngor ysgol; a
- partneriaid busnes a phartneriaid eraill yr ysgol.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan arfarnu'r ysgol;
- 139 o ymatebion i'r holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad;
- enghreifftiau o adroddiadau disgyblion; ac
- ystod o waith disgyblion.

Yn dilyn yr arolygiad, cynhaliodd yr arolygwyr gyfarfodydd gydag adrannau, arolygwyr uwch a'r llywodraethwyr.

Atodiad 5

Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Aelod tîm	Cyfrifoldebau
William Gwyn Thomas Arolygydd Cofrestredig	Cyd-destun, Crynodeb, Argymhellion, Atodiadau Cwestiynau allweddol 1 a 5
Gwynoro Jones Arolygydd Lleyg	Cyfrannu i'r holl gwestiynau allweddol
Manon Wyn Sion	Cwestiwn allweddol 2
Bethan Whittal	Cwestiwn allweddol 3
David B Morgan	Cwestiwn allweddol 4
Dylan Gwyer Roberts	Cwestiwn allweddol 6
Huw Llewelyn	Cwestiwn allweddol 7
Gwyn Jones	Cefnogi Cwestiwn allweddol 5 Arsylwi gwersi
Anna Williams	Cefnogi Cwestiwn allweddol 3 Arsylwi gwersi
Rhian Griffiths	Enwebai

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r tîm arolygu ddiolch i lywodraethwyr, pennaeth, staff, disgyblion a rhieni Ysgol Gyfun* Bro Morgannwg *am eu cydweithrediad parod trwy gydol yr arolygiad.

Contractwr: EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît H
Tŷ Britannic
Llandarsi
Castell-nedd
SA10 6JQ